

Cynllun Adfer Natur Cymru
Gosod y trywydd ar gyfer 2020 a'r tu hwnt

Rhan 1: Ein Strategaeth ar gyfer Natur

Rhan 2: Ein Cynllun Gweithredu

Rhan 3: Y Fframwaith Adfer Natur

RHAGAIR Y GWEINIDOG

Natur yw system cynnal bywyd y blaned. Mae'r holl blanhigion, yr anifeiliaid a'r micro-organebau a'r mannau lle maent yn byw, yn cynnig manteision economaidd, cymdeithasol, esthetig, diwylliannol ac ysbrydol i ni'r ddynoliaeth, a hynny'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Mae natur yn darparu bwyd, dŵr, ffibr a deunyddiau adeiladu ar ein cyfer ac mae hefyd yn gwneud lles i'n hiechyd o ran meddwl a chorff, gan ein hysbrydoli a llunio ein diwylliant.

Yng Nghymru, rydym yn sylweddoli bod ein llesiant a llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn dibynnu ar iechyd ein hamgylchedd. Mae cyflwr ein hamgylchedd naturiol a'r byd natur y mae'n ei gefnogi'n brawf pwysig i weld a ydym yn dysgu byw'n gynaliadwy. Ond mae ein byd natur o dan bwysau: yn sgil gorymelwa, colli cynefinoedd, llygredd, newid yn yr hinsawdd a rhywogaethau estron goresgynnol.

Nod y Cynllun Adfer Natur hwn yw mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd y colledion hyn drwy roi natur wrth galon ein penderfyniadau, drwy wneud ein systemau naturiol (ecosystemau) yn fwy cydnerth, a thrwy gymryd camau penodol sydd er lles cynefinoedd a rhywogaethau. Mae'n dweud sut y bydd Cymru'n gwireddu ymrwymadau Strategaeth Bioamrywiaeth yr Undeb Ewropeaidd a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol i atal y dirywiad yn ein bioamrywiaeth erbyn 2020 ac wedyn i wrthdroi'r dirywiad hwnnw.

Mae'r cynllun yn adeiladu ar sail ein fframwaith deddfwriaethol newydd, arloesol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ein herio ni i gyd i edrych ar effeithiau penderfyniadau yn y tymor hir ac i weithio i gyflawni ein saith Nod Llesiant, gan gynnwys gwneud ein hecosystemau'n fwy cydnerth, ac mae Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn ymgorffori egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol yn y gyfraith drwy fabwysiadu dull ecosystemau ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol yn y dyfodol.

Mae cadw ac adfer y natur sydd gennym yng Nghymru yn fuddsoddiad hanfodol er lles ansawdd bywyd pawb yng Nghymru. Drwy gymryd camau yn awr a chydweithio, gallwn sicrhau manteision gwirioneddol sy'n para - i'r genhedlaeth hon ac i genedlaethau'r dyfodol.

Rhan 1: Ein Strategaeth ar gyfer Natur

1. RHAGARWEINIAD: PAM MAE BIOAMRYWIAETH YN BWYSIG?

Bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth o fywyd sydd ar y ddaear. Mae'n cynnwys pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid, eu helaethrwydd a'u hamrywiaeth genetig. Mae'n cynnwys rhyfeddodau bywyd gwyllt a rhywogaethau a chynefinoedd eiconig; mae'n hanfodol er mwyn cysylltu pobl â natur; ac mae'n cyfrannu at lesiant cymdeithas, ei hymdeimlad o le a'i hunaniaeth ddiwylliannol.

Mae bioamrywiaeth yn sail i'n bywydau a'n bywoliaeth ac mae'n cefnogi'r ffordd y mae ecosystemau'n gweithio a'u cydnerthedd mewn cefnforoedd, gwlypdiroedd, llynnoedd, afonydd, mynyddoedd, coedwigoedd a thirweddau amaethyddol.

Mae ein heconomi, ein hiechyd a'n llesiant yn dibynnu ar ecosystemau iach a chydnerth, sy'n rhoi ein bwyd inni, dŵr ac aer glân, y deunyddiau crai a'r ynni ar gyfer ein diwydiannau ac mae'r ecosystemau hyn yn ein diogelu rhag peryglon, megis llifogydd a newid yn yr hinsawdd.

Mae newidiadau yn nosbarthiad a helaethrwydd planhigion, anifeiliaid a microbau'n effeithio ar swyddogaethau ecosystemau a chapasiti'r swyddogaethau hynny i ddarparu gwasanaethau ecosystem. Pan gollir rhywogaethau o ecosystemau, bydd hynny'n effeithio ar eu gallu i wrthsefyll goresgyniad gan rywogaethau eraill, ar gynhyrchu a chylchu maethynnau, ac ar ba mor ddibynadwy a sefydlog yw'r ecosystemau eu hunain. Felly, mae bioamrywiaeth yn hanfodol er mwyn cynnal ecosystemau sy'n darparu'r gwasanaethau hollbwysig y mae ein bywydau'n dibynnu arnynt. Pan gollir bioamrywiaeth, ac na fydd modd ei hadfer yn llwyr, bydd hynny'n effeithio ar gapasiti ecosystemau i addasu i newid ac i unrhyw darfu arnynt.¹

Mae **Ffigur 1** yn dangos gwerth bioamrywiaeth fel sail i ecosystemau iach gweithredol, i lesiant pobl ac i'r economi.

Mae'n hanfodol felly ein bod yn cynnal ac yn gwella ein bioamrywiaeth er mwyn sicrhau ei bod yn cadw'n iach, yn gydnherth ac yn gallu ymaddasu i newid.


Rhaid inni beidio ag anghofio ychwaith fod i fioamrywiaeth ei gwerth cynhenid ei hun, a'i bod yn ddyletswydd foisol arnom ei gwarchod ac atal rhagor o golled.

Fodd bynnag, cydnabyddir yn gyffredinol bod bioamrywiaeth o dan bwysau yn sgil amrywiaeth o ddylanwadau. Er bod llawer o waith wedi'i wneud, ac er gwaethaf rhai llwyddiannau nodedig, dirywio o hyd y mae ein cynefinoedd a'n rhywogaethau. Mae Atodiad 1 yn dangos statws a thueddiadau rhai o'r rhain yng Nghymru ar hyn o bryd.

¹[Memorandwm Esboniadol Bil yr Amgylchedd \(Cymru\)](#)

Nod penodol y Cynllun Adfer Natur yw cefnogi ein byd natur: ein rhywogaethau a'u cynefinoedd, ei amrywiaeth a'i helaethrwydd, er ei fwyn ei hun yn ogystal â sicrhau bod ein hecosystemau'n gweithio'n iach.

Ffigur 1: Mae bioamrywiaeth yn sail i ecosystemau iach gweithredol, i lesiant pobl ac i'r economi²



Mae tair rhan i'r cynllun:

Rhan 1: Mae ein Strategaeth ar gyfer Natur yn dangos ein hymrwymiad i fioamrywiaeth yng Nghymru, y materion y mae angen inni fynd i'r afael â hwy, a'n hamcanion ar gyfer gweithredu. Mae'n dweud sut y bydd y camau yr ydym yn eu cymryd yn awr a'r rhai y bwriadwn eu cymryd, yn enwedig drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015³, a thrwy Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, yn cyfrannu at wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru.

² <http://biodiversity.europa.eu/maes> (Saesneg yn unig)

³ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 - Yr Hanfodion](#)

Rhan 2: Mae ein Cynllun Gweithredu yn rhestru'r camau hynny sydd wedi'u nodi'n benodol er mwyn cyflawni ein hamcanion i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth.

Rhan 3: Bydd y Fframwaith Adfer Natur, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu, yn dangos strwythur llywodraethu'r Cynllun Adfer Natur, a rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â chymryd camau i weithredu dros fioamrywiaeth yng Nghymru. Bydd hefyd yn diffinio'r trefniadau atebolrwydd sydd ar waith i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni.

Nid dogfen i'w chyhoeddi a'i gadael ar y silff yw'r Cynllun Adfer Natur. Dogfen fyw yw hi ac mae gan bawb sy'n ymwneud â hyn gyfrifoldeb i'w hadolygu a'i diweddarw wrth i bolisiau a blaenoriaethau esblygu dros gyfnod.

Mae Cynllun Adfer Natur Cymru yn dweud sut y byddwn yn mynd i'r afael â Chynllun Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a Thargedau cysylltiedig Aichi ar gyfer Bioamrywiaeth yng Nghymru yn ogystal â thargedau Strategaeth Bioamrywiaeth yr Undeb Ewropeaidd.⁴ Dyma Strategaeth Bioamrywiaeth Genedlaethol a Chynllun Gweithredu Cymru.⁵

Mae'r Cynllun Adfer Natur wedi'i gynhyrchu gan Fwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru, ac mae aelodau'r bwrdd yn cynrychioli rheolwyr tir a môr, Cyfoeth Naturiol Cymru, y trydydd sector amgylcheddol, awdurdodau lleol, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru. Cynllun i bawb yng Nghymru yw hwn.

⁴ [Strategaeth Bioamrywiaeth yr Undeb Ewropeaidd \(Saesneg yn unig\)](#)

⁵ [Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol - Cynllun Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth 2011-2020, gan gynnwys Targedau Bioamrywiaeth Aichi \(Saesneg yn unig\)](#)

2. EIN HYMRWYMIAD I FIOAMRYWIAETH

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** yn cydnabod y pwys y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar natur a'i fioamrywiaeth. Ynghyd â chwe nod arall ar gyfer y Gymru gynaliadwy y carwn ei gweld, mae'r Ddeddf yn gosod y nod 'Cymru Gydnerth':

'Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).'

Bydd yn rhaid i bob corff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag at hyn a'r holl nodau fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf gan fabwysiadu'r egwyddorion sydd ynddi.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i weledigaeth Cynllun Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth 2011-2020 **Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol** (y Confensiwn):

'By 2050, biodiversity is valued, conserved, restored and wisely used, maintaining ecosystem services, sustaining a healthy planet and delivering benefits essential for all people.' with its mission *'to take urgent action to halt the loss of biodiversity'*.

Mae'r weledigaeth, y genhadaeth a'r pum nod strategol i'w gweld yn llawn yn Atodiad 2. Bwriedir cyrraedd y nodau hyn drwy gyfrwng 20 targed, a elwir yn dargedau Aichi, ac mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad 3.

Mae **Strategaeth Bioamrywiaeth yr Undeb Ewropeaidd** yn dweud sut y gall polisïau Ewrop gyfrannu orau at gyflawni Cynllun Strategol y Confensiwn ac mae'n cynnwys nifer o amcanion a thargedau. Mae'r rhain hefyd i'w gweld yn Atodiad 2.

Ein huchelgais

Er mwyn cyflawni ein hymrwymadau i fioamrywiaeth, ein huchelgais yw;

'Gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, oherwydd bod iddi werth cynhenid, a sicrhau budd sy'n para i'r gymdeithas.'

Mae'r Cynllun Adfer Natur yn diffinio'r amcanion a'r camau allweddol y mae angen eu cymryd yng Nghymru i wireddu ein huchelgais ac i gyflawni'r nod Cymru Gydnerth a'r ymrwymadau byd-eang ac Ewropeaidd i atal colli bioamrywiaeth.

Camau yw'r rhain y gellir eu cyflawni yn y tymor byr ond a fydd yn ein rhoi ar y trywydd cywir i wireddu ein hymrwymadau yn y tymor hwy y tu hwnt i 2020.

Mesur ein cynnydd

Bydd y Dangosyddion Cenedlaethol a ddatblygwyd ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein helpu i fesur a ydym yn cyflawni nod Cymru Gydnerth.

Datblygir set arall o ddangosyddion i fesur cynnydd y Cynllun Adfer Natur o'i gymharu â'n hamcanion.

Yn ogystal â'r Dangosyddion Cenedlaethol, yn yr amgylchedd morol rydym wedi ymrwmo i sicrhau Statws Amgylcheddol Da i'n moroedd erbyn 2020 fel sy'n ofynnol o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Mae nifer o dargedau a dangosyddion wedi'u datblygu o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn benodol ar gyfer bioamrywiaeth y môr a'i amgylchedd ehangach a fydd yn dangos ein cynnydd tuag at ennill Statws Amgylcheddol Da.⁶

Bydd y Fframwaith Adfer Natur yn pennu'r trefniadau llywodraethu i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymadau o ran bioamrywiaeth, ac yn adrodd ar ein cynnydd.

⁶[Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol \(Saesneg yn unig\)](#)

3. YR HYN Y MAE ANGEN INNI EI WNEUD: EIN HAMCANION AR GYFER ADFER NATUR

Cydnabyddir yn gyffredinol bod bioamrywiaeth o dan bwysau yn sgil amrywiaeth o ddylanwadau. Er bod llawer o waith wedi'i wneud, ac er gwaethaf rhai llwyddiannau nodedig, dirywio o hyd y mae ein cynefinoedd a'n rhywogaethau. Mae Atodiad 1 yn dangos statws a thueddiadau rhai o'r rhain yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o gael effaith sylweddol ar fioamrywiaeth dros y degawdau nesaf, gan gynnwys colli rhagor o gynefinoedd a chynnydd posibl yn nifer y rhywogaethau goresgynnol.

Mae nifer o amcanion wedi'u gosod er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n sbarduno'r dirywiad yn ein bioamrywiaeth, ac i'w helpu i ymadfer.

→Amcan 1: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.

Mae'n hanfodol rhoi natur wrth graidd y broses benderfynu er mwyn mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd colli bioamrywiaeth. Yn 2011, roedd Asesiad Cenedlaethol y DU o Ecosystemau⁷ yn nodi'r hyn sy'n achosi colli bioamrywiaeth a diraddio ecosystemau:

'The natural world, its biodiversity and its constituent ecosystems are critically important to our well-being and economic prosperity, but are consistently undervalued in conventional economic analyses and decision making.'

Mae diffyg ymwybyddiaeth, a'r ffordd wedyn y rhoddir gwerth ar y cyfraniad hollbwysig y mae natur yn ei wneud at ein llesiant a'n bywoliaeth, yn golygu ein bod yn aml yn anghofio rhoi cyfrif am y cyfraniad hwnnw wrth wneud penderfyniadau, ar bob lefel o'r gymdeithas, o unigolion i awdurdodau lleol a busnesau. Gall hyn arwain at niweidio byd natur neu orymelwa arno. Nid oes mecanweithiau ychwaith i ategu'r ystyriaethau hyn. Er enghraifft, nid yw 'incwm a gollir' yn rhoi digon o gyfrif am werth y gwasanaethau ecosystem a ddarperir gan gynefin fferm.

→Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well

Mae rhywogaethau a chynefinoedd yn rhyfeddol ac yn ysbrydoli pobl ac mae'n ddyletswydd foesol arnom eu gwarchod hwy a'u hamrywiaeth genetig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Dyma flociau adeiladu ein hecosystemau a'r ffordd y maent yn gweithio ac fe gawn lu o wasanaethau a manteision yn eu sgil. Rhaid inni sicrhau bod gennym boblogaethau o rywogaethau cydnerth i'w cynnal.

Mae safleoedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer cadwraeth natur yn chwarae rhan bwysig: maent yn allweddol o ran cynnal yr amrywiaeth naturiol sy'n ofynnol er mwyn

⁷ [Asesiad Cenedlaethol y Deyrnas Unedig o Ecosystemau \(Saesneg yn unig\)](#)

sicrhau cydnerthedd, ac maent yn cyfrannu mwy na'u siâr at ystod eang o wasanaethau a manteision ecosystemau. Dynodir safleoedd at ddibenion cadwraeth natur i warchod a gwella ein cynefinoedd a'n rhywogaethau mwyaf prin, a'r enghreifftiau gorau o'n bioamrywiaeth a'n geoamrywiaeth naturiol yng Nghymru. Systemau cymhleth, hynafol yn aml yw'r amgylcheddau hyn sy'n gyforiog o rywogaethau ac yn cynnwys storfa enetig o blanhigion ac anifeiliaid.

Mae dulliau cadwraeth natur traddodiadol sy'n seiliedig ar safleoedd dynodedig a gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd wedi bod yn arbennig o lwyddiannus a byddwn yn parhau i ddefnyddio'r dulliau hyn. Mae ein safleoedd a'n rhywogaethau gwarchodedig yn adnodd craidd, ond mae perygl iddynt gael eu hynysu, a gall y ffaith bod y safleoedd hyn o dan bwysau o'r tu allan olygu eu bod yn anodd eu rheoli.

→Amcan 3: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd

Cynefinoedd sydd wedi'u diraddio yw'r rhai nad ydynt bellach yn cynnal potensial llawn ein bywyd gwyllt cynhenid. Er mwyn diogelu ein rhywogaethau gwarchodedig a chryfhau cydnerthedd rhywogaethau a chynefinoedd ar raddfa ehangach, mae angen inni adfer rhwydweithiau o gynefinoedd i gyflwr iach ledled Cymru, ar y tir ac yn y môr.

Drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd, bydd modd datblygu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol drwy gymryd camau mewn perthynas â phedair priodoledd cydnerthedd:

- Cynyddu bioamrywiaeth
- Ehangu ecosystemau drwy leihau darnio
- Gwella'r cysylltedd o fewn ecosystemau a rhyngddynt
- Gwella cyflwr cynefinoedd.

Bydd y cydnerthedd hwn hefyd yn cryfhau gallu rhywogaethau a chynefinoedd i ymaddasu i fathau eraill o bwysau, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd.

→Amcan 4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd

Yn yr Asesiad Cenedlaethol y DU o Ecosystemau gwelwyd bod newidiadau o ran arferion rheoli tir, yn sgil amaethyddiaeth a threfoli, llygredd a rhywogaethau estron goresgynnol, ac mai dyma rhai o'r prif ddylanwadau sy'n arwain at gollu cynefinoedd a rhywogaethau ac at eu darnio. Ynghyd ag asideiddio ac ewtroffigedd, mae hyn wedi newid nifer ac ansawdd y cynefinoedd a'r rhywogaethau y gallant eu cynnal.

Yn yr amgylchedd morol, ymhlith y dylanwadau mwyaf, mae gweithgarwch anghynaliadwy gan bobl, newid yn yr hinsawdd sy'n arwain at gynhesu ac asideiddio moroedd a chefnforoedd y byd, ynghyd â chyflwyno rhywogaethau estron goresgynnol.

Mae'n hanfodol rhag-weld, atal a lliniaru'r hyn sy'n arwain at golli bioamrywiaeth wrth ei wraidd, gan ddefnyddio ein deddfwriaeth, ac atebion arloesol a chyfannol sy'n seiliedig ar natur.

→Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro

Er mwyn helpu natur i adfer, mae angen inni lywio'r camau gweithredu drwy ddeall yn well ecoleg a gwyddoniaeth ein cynefinoedd a'n rhywogaethau, eu statws a'u tueddiadau, a'r pwysau a'r sbardunau sy'n arwain at newidiadau.

→Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

Yn sail i'n gweithredu, mae angen hefyd inni gael strwythur llywodraethu sy'n addas at y diben i fod yn gefn i'r gweithredu a'r cyflawni ar lawr gwlad. Mae angen inni sicrhau bod gennym y sgiliau, yr arbenigedd, y gweithwyr a'r swyddogaethau ar waith i gyflawni hyn.

Mae'n hanfodol bod yr amcanion hyn yn llywio'r holl gamau a gymerwn i wrthdroi colli bioamrywiaeth, ym mhob un o'n polisiau, strategaethau a rhaglenni.

4. SICRHAU BOD BIOAMRYWIAETH YN BWRW GWREIDDIAU YN Y BROSES BENDERFYNU YNG NGHYMRU.

Un elfen allweddol er mwyn cyflawni ein holl amcanion yw'r ddeddfwriaeth arloesol a roddwyd ar waith i sicrhau bod bioamrywiaeth wrth galon y broses benderfynu mewn bywyd cyhoeddus.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gwneud i gyrrff cyhoeddus arddel dull mwy cydlynol o wella llesiant amgylcheddol Cymru yn ogystal â'i llesiant economaidd, diwylliannol a chymdeithasol. Bydd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy⁸ a sefydlwyd yn sgil Bil yr Amgylchedd (Cymru)⁹ yn golygu y caiff adnoddau naturiol Cymru (gan gynnwys bioamrywiaeth) eu rheoli mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydlynol.

Sut y bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn helpu natur i adfer yng Nghymru.

Drwy fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n llawn mae'r Ddeddf yn cydnabod bod angen mynd i'r afael â thueddiadau tymor hir ac achosion sylfaenol yr heriau strategol sy'n ein hwynebu, gan gynnwys yng nghyswllt bioamrywiaeth.

Mae'n nodi saith Nod Llesiant ar gyfer y Gymru gynaliadwy a garem:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Cyrraedd y nod Cymru gydnerth yw ein prif ymrwymiad i fioamrywiaeth a fydd hefyd yn cefnogi nifer o'r nodau llesiant eraill.

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Adnoddau Naturiol Cymru ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, yn ystyried cyflawni'r nodau llesiant ym mhob polisi a strategaeth, ac ym mhob cymorth grant a threfniant ariannu. Rhaid i bob corff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u cynllunio i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni pob un o'r nodau llesiant, a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny.

⁸ [Taflen Ffeithiau Bil yr Amgylchedd \(Cymru\) – Y Fframwaith Cyflawni ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy](#)

⁹ [Taflen Ffeithiau Bil yr Amgylchedd \(Cymru\) - Golwg Gyffredinol ar Fil yr Amgylchedd \(Cymru\)](#)

Bydd y Ddeddf, felly, yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, osod amcanion i sicrhau amgylchedd naturiol bioamrywiol sydd ag ecosystemau iach gweithredol, ac iddynt gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae 5 ffordd o weithio hefyd y bydd angen i gyrff cyhoeddus eu defnyddio i ddangos eu bod wedi rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith:

Hirdymor - Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

Atal - Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

Integreiddio - Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

Cydweithio – Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

Cynnwys - Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn eu gwasanaethu.

Bydd dilyn y dulliau gweithio hyn yn help i bob corff cyhoeddus gydweithio, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau tymor hir yr ydym yn eu hwynebu. Bydd gweithio fel hyn yn gam hanfodol tuag at y newid corfforaethol sydd ei angen i sicrhau bod ystyried bioamrywiaeth yn bwrw gwreiddiau'n gynnar yn y broses benderfynu.

Sut y bydd y Bil Rheoli Adnoddau Naturiol a'r Amgylchedd yn Gynaliadwy (Cymru)¹⁰ helpu natur i adfer yng Nghymru.

Amcan Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yw cynnal a gwella cydnerthed ecosystemau a'r manteision y maent yn eu cynnig, a, thrwy wneud hynny, ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

Mae atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth yn hanfodol i'r amcan hwn.

Pwrpas Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yw:

- adlewyrchu'r rôl sydd gan ein hadnoddau naturiol o ran cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant a gyflwynir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- cynnal a gwella cyflwr ein hecosystemau a phwysleisio rôl buddion (neu wasanaethau) ecosystemau yn y broses benderfynu
- sicrhau ein bod yn rheoli ac yn defnyddio ein hadnoddau naturiol yn y fath fodd fel nad yw'n llesteirio gallu'r hadnoddau hynny na gallu ecosystemau i

¹⁰ Adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae'r Bil ar ei hynt drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

sicrhau llu o fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y tymor hir

- sicrhau bod effaith gweithgareddau ar ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau yn cael ei hystyried o ran sut maent yn effeithio ar gydnerthedd ein hecosystemau ac, yn sgil hynny, ar eu gallu i sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol
- sicrhau bod ystod eang o fanteision perthnasol ecosystemau yn cael eu hystyried a bod gwerth yn cael eu rhoi arnynt yn y broses benderfynu a chyflawni. Mae hyn yn cynnwys y gwerth y byddwn yn ei roi ar ein hadnoddau naturiol er eu mwyn eu hunain
- lleihau effeithiau negyddol defnyddio adnoddau naturiol¹¹.

Mae bioamrywiaeth yn adnodd naturiol pwysig, ac felly bydd pob un o'r dibenion hyn yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun Adfer Natur.

Bydd yr egwyddorion a'r fframwaith ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (gweler isod) yn sicrhau bod bioamrywiaeth, a'r ffordd y'i rheolir, yn cael ei hystyried yn elfen hanfodol o ecosystemau.

Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau¹²

Mae Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn cyflwyno dyletswydd gryfach i sicrhau bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau a fydd yn berthnasol i awdurdodau lleol sy'n cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â Chymru.

Bydd y ddyletswydd gryfach hon yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn rhan naturiol a hanfodol o wneud polisiau a phenderfyniadau gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Bydd dyletswydd newydd i adrodd yn galluogi awdurdodau cyhoeddus i adrodd am y camau a gymerwyd i wella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau a hefyd ynghylch pa gamau y maent wedi'u cymryd i gynnwys mesurau bioamrywiaeth mewn meysydd polisi, strategaethau neu gynlluniau eraill.

Bydd cyflawni'r ddyletswydd hon yn help i gyrrff cyhoeddus gyflawni eu nodau llesiant ac amcanion y Cynllun Adfer Natur.

¹¹ [Memorandwm Esboniadol Bil yr Amgylchedd \(Cymru\)](#)

¹² [Taflen Ffeithiau Bil yr Amgylchedd \(Cymru\) - Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau](#)

Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Mae Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn cynnwys y dull ecosystemau mewn statud drwy set o egwyddorion sy'n seiliedig ar 12 egwyddor Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol.¹³

Pan ddaw'n ddeddf, bydd angen i bob corff cyhoeddus sy'n gorfod cydymffurfio â Bil yr Amgylchedd (Cymru) ddefnyddio'r egwyddorion hyn wrth gynllunio a gweithredu prosiectau a rhaglenni gwaith.


Meithrin cydnerthedd	Mae ecosystem gydnerth yn un sy'n iach sy'n gweithio mewn ffordd sy'n caniatáu iddi fynd i'r afael â'r pwysau a'r dylanwadau sydd arni. Mae'n gallu esgor ar fanteision yn yr hirdymor er mwyn diwallu'r anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sydd ohoni ar y pryd. Bioamrywiaeth yw sylfaen y cydnerthedd hwn.
Rheoli er mwyn sicrhau nifer o fanteision gwahanol	Mae'n hecosystemau'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau a buddion inni. Mae angen inni ystyried y pob un ohonynt wrth benderfynu sut i'w defnyddio, a hynny er mwyn iddynt esgor ar nifer o fanteision gwahanol yn y tymor hir. Mae hyn yn cynnwys ystyried eu gwerth cynhenid.
Rheoli mewn modd ymaddasol	Mae prosesau a swyddogaethau ecosystemau yn gymhleth ac yn amrywiol a byddwn yn gweithio mewn ffordd ymaddasol gan ganolbwyntio ar ddysgu gweithredol a fydd yn seiliedig ar fonitro ac ar ganlyniadau. Byddwn hefyd yn ystyried yr oedi cyn i ecosystemau ddechrau teimlo effaith ymyriadau, a hefyd yr amser y maent yn ei gymryd i ymateb i'r ymyriadau hynny. Bydd yn fater o 'ddysgu drwy wneud'.
Yr hirdymor	Mae'n bwysig hefyd ein bod yn ystyried y canlyniadau a gaiff camau gweithredu yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.
Tystiolaeth	Mae hyn yn golygu casglu gwybodaeth ac ystyried yr holl dystiolaeth gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol (gan gynnwys tystiolaeth am unrhyw ffactorau nad oes sicrwydd yn eu cylch) oddi wrth amrywiaeth eang o arbenigwyr a rhanddeiliaid ar y lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, fel y bo'n briodol, a hynny er mwyn nodi blaenoriaethau a chyfluoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol ac er mwyn cyflawni'r camau rheoli.

¹³ <https://www.cbd.int/ecosystem/principles.shtml> (Saesneg yn unig)

Cydweithio a chydweithredu	Mae'n fater o sicrhau cyfathrebu dwy ffordd ar draws y lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol ac yn fater hefyd o sicrhau cysylltiadau rhwng polisïau, prosesau a phobl er mwyn rhoi diwedd ar weithio mewn seilos. Drwy wneud hynny, bydd modd datblygu a gweithredu'r atebion newydd ac arloesol sydd eu hangen.
Gweithio ar y raddfa briodol	Mae ecosystem yn uned weithredol sy'n gallu gweithredu ar unrhyw raddfa, gan ddibynnu ar y broblem neu'r mater sydd o dan sylw.

Fframwaith Cyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Mae'r Bil hefyd yn cyflwyno fframwaith ategol a chydgyssylltiedig sy'n cynnwys cyhoeddi ac adolygu'r dogfennau a ganlyn:



Bydd y Cynllun Adfer Natur yn llywio'r fframwaith hwn drwy:

- ddarparu'r dystiolaeth orau sydd ar gael i baratoi ar gyfer datganiadau ardal, gan adlewyrchu'r pwysau lleol sydd ar fioamrywiaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer adfer rhywogaethau a chynefinoedd
- darparu tystiolaeth a gwybodaeth er mwyn blaenoriaethu camau ym maes bioamrywiaeth o fewn y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol. Cyflawnir y camau sy'n flaenoriaeth drwy strategaethau, polisiau a mecanweithiau cyflawni priodol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â thrwy weithgareddau penodol Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill, ac yn gefn i'r rhain, bydd camau mwy penodol y Cynllun Adfer Natur
- nodi statws bioamrywiaeth a thueddiadau a dangosyddion ac adrodd arnynt er mwyn llywio'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol.

Bydd y Fframwaith Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn cryfhau safle bioamrywiaeth yn y broses benderfynu ac yn annog dulliau cyfannol o fynd i'r afael â ffactorau negyddol, er enghraifft drwy atebion yn seiliedig ar natur i fynd i'r afael â llygredd a darnio cynefinoedd.

Fframwaith Deddfwriaethol Bioamrywiaeth y Môr

Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn berthnasol i'r amgylchedd daearol a'r amgylchedd morol. Yn ogystal â'r rhain, bydd Rheoliadau'r Strategaeth Forol 2010¹⁴ yn rhoi **Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol**¹⁵ ar waith, a nod honno fydd sicrhau neu gynnal Statws Amgylcheddol Da i'n moroedd erbyn 2020 drwy warchod yr amgylchedd morol, ei atal rhag dirywio, ei adfer lle bo hynny'n ymarferol a defnyddio adnoddau'r môr mewn ffordd gynaliadwy.

Y Gyfarwyddeb hon yw'r fframwaith cyffredinol ar gyfer nifer o Gyfarwyddebau a deddfau allweddol eraill ar lefel Ewrop a'r DU sy'n berthnasol i'r amgylchedd morol. Er enghraifft, Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd¹⁶, Cyfarwyddeb Adar yr Undeb Ewropeaidd¹⁷, Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd¹⁸, y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin¹⁹ a Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir y DU²⁰.

Bydd Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol hefyd yn ein helpu i gyflawni ein hymrwymadau rhyngwladol ynghylch Datblygu Cynaliadwy a'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol.

¹⁴ [Rheoliadau Strategaeth Forol 2010 \(Saesneg yn unig\)](#)

¹⁵ [Gwybodaeth gan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur am Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol \(Saesneg yn unig\)](#)

¹⁶ [Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd \(Saesneg yn Unig\)](#)

¹⁷ [Cyfarwyddeb Adar yr Undeb Ewropeaidd \(Saesneg yn Unig\)](#)

¹⁸ [Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd \(Saesneg yn unig\)](#)

¹⁹ [Polisi Pysgodfeydd Cyffredin \(Saesneg yn Unig\)](#)

²⁰ [Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir - y Deyrnas Unedig \(Saesneg yn unig\)](#)

Yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, sefydlodd Gweinidogion Cymru yn Awdurdod Cynllunio Morol i Gymru. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru²¹ yn hybu datblygu'r ardal forol a defnyddio ein hadnoddau morol mewn ffordd gynaliadwy.

Mae'r Cynllun Morol a Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn integreiddio polisïau sy'n ymwneud â'r môr ac yn rhoi'r dull ecosystemau wrth galon y broses benderfynu ar gyfer moroedd Cymru.

²¹ Adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru wrthi'n cael ei ddrafftio.

5. CAMAU GWEITHREDU ER MWYN ADFER NATUR YN AMGYLCHEDD DAEAROL

Yn yr adran hon, crynhoir y camau y mae angen eu cymryd er mwyn cyflawni ein hamcanion a'r rhaglenni a'r mecanweithiau y bydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhain yn yr amgylchedd daearol.

Cyflawnir ein hamcanion adfer natur drwy ddeddfwriaeth Ewropeaidd a domestig a'n holl bolisiâu a strategaethau - yn enwedig gan fod yr olaf wedi'u haddasu i ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Cynllun Adfer Natur hefyd yn rhoi camau ar waith i gefnogi'r broses gyflawni drwy'r ddeddfwriaeth hon, yn enwedig o ran cryfhau'r ymwybyddiaeth o werth bioamrywiaeth, tywys y gwaith i adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a gwella'r dystiolaeth.

Rhan 2 o'r Cynllun Adfer Natur yw'r Cynllun Gweithredu sy'n dangos y camau'n fanylach. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau ein bod yn dal i weithredu ar y prif flaenoriaethau i gyflawni ein hamcanion.

Amcan 1: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel

Mae mynd i'r afael â'r amcan hwn yn gofyn am newid corfforaethol, ac integreiddio gwerthoedd bioamrywiaeth, rhai economaidd a rhai cynhenid, yn y broses benderfynu, er mwyn cydnabod y gwerth, rhoi cyfrif amdano a gweithredu arno'n ddiymdroi.

I gyrff cyhoeddus, y fframwaith deddfwriaethol newydd fydd yn sbarduno hyn, gan sicrhau bod bioamrywiaeth yn bwrw gwreiddiau ym mhob un o strategaethau a rhaglenni Llywodraeth Cymru a chan fwrw ymlaen â'r camau cydgysylltiedig sydd wedi'u blaenoriaethu ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Fodd bynnag, gan fod cyfran fawr o Gymru mewn dwylo preifat, bydd angen inni gydweithio â phawb sy'n gwneud penderfyniadau a rheolwyr tir, o unigolion a busnesau bach i gorfforaethau mawr, yn ogystal â chyrff cyhoeddus. Mae angen inni sicrhau bod eu gwaith dros fioamrywiaeth yn cael ei gydnabod ac mae angen inni barhau i weithio i ddod o hyd i well ffyrdd o ariannu'r gwaith hwnnw, drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig – Cymunedau Gwledig²² a thrwy fecanweithiau ariannu newydd ac arloesol.

Mae manteision bioamrywiaeth i'n hiechyd a'n llesiant, ac i reoli tir (drwy reoli plâu drwy dulliau naturiol er enghraifft) yn dra hysbys²³. Mae angen inni sicrhau bod y manteision hyn yn cael eu hystyried wrth gynllunio busnes ar ffermydd, ac wrth reoli tir masnachol. Mae gwaith ar y gweill eisoes ar gyfrifo cyfalaf naturiol ar lefel y DU, a fydd yn llywio ein dulliau o gynnwys bioamrywiaeth wrth reoli busnes.

²² [Cymunedau Gwledig - Y Rhaglen Datblygu Gwledig \(Saesneg yn unig\)](#)

²³ http://www.leafuk.org/leaf/farmers/Simply_Sustainable_Biodiversity.eb (Saesneg yn unig)

Yn sail i hyn, er mwyn hwyluso penderfyniadau, bydd angen gwneud ymdrech fawr i wella'r ddealltwriaeth a chryfhau'r ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a gwerth byd natur a'i fioamrywiaeth drwy Gymru. Mae angen inni ei gwneud yn haws i **bawb** weithredu drwy:

- ddisgrifio camau syml a fydd yn cyflawni ein hamcanion
- addysg a hyfforddiant mewn ysgolion, colegau a chynlluniau trosglwyddo gwybodaeth.

Dyma rai o'r Ymyriadau Allweddol:

- Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** yn cyflwyno nodau llesiant y mae'n rhaid i gyrrff cyhoeddus weithio tuag atynt, gan bennu amcanion a chymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni. Defnyddir Dangosyddion Cenedlaethol i fesur y cynnydd tuag at y nodau, gan gynnwys y nod Cymru Gydnerth.
- Bydd **Bil yr Amgylchedd (Cymru)** yn cyflwyno Dyletswydd newydd gryfach i gyrrff cyhoeddus sicrhau Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau a bod bioamrywiaeth yn rhan hanfodol o'r broses benderfynu. Bydd y Ddyletswydd yn disodli Dyletswydd bresennol Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006²⁴. Bydd gofyn i awdurdodau cyhoeddus adrodd am y camau y maent yn eu cymryd i wella bioamrywiaeth a hybu cydnerthedd ecosystemau.
- Bydd **Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru** yn datblygu strategaeth gyfathrebu uchelgeisiol a fydd yn ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn eu helpu i gymryd rhan a gwella'u dealltwriaeth er mwyn sicrhau bod bioamrywiaeth yn bwrw gwreiddiau ar bob lefel yn y broses benderfynu.
- Bydd integreiddio **Gwasanaeth Rheng Flaen** Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu rhoi i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a bod egwyddorion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu rhoi ar waith gan helpu i gyflawni'r nodau llesiant.

Enghreifftiau eraill o gamau i gyflawni'r amcan hwn:

- Cynhaliodd Cyngor Sir Conwy **archwiliad ar fioamrywiaeth** drwy ei feysydd gwasanaeth gan nodi'r arferion presennol sy'n effeithio ar fioamrywiaeth a chymryd camau i fynd i'r afael â'r rheini, gan roi arferion cadarnhaol ar waith.
- Mae **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**²⁵ yn darparu system gynllunio sy'n deg, yn gydnerth ac yn galluogi datblygu, gan helpu i greu mannau cynaliadwy lle y bydd yn haws i ddinasyddion gael gafeol ar gartrefi, swyddi a seilwaith o ansawdd, gan ddiogelu ar yr un pryd ein hamgylcheddau adeiledig a naturiol pwysicaf a chefnogi defnyddio'r Gymraeg.

²⁴ [Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 \(Saesneg yn unig\)](#)

²⁵ [Deddf Cynllunio \(Cymru\) 2015](#)

- Mae **Fframwaith Strategol ar gyfer Amaethyddiaeth Cymru**²⁶ yn cydnabod bod cynhyrchu cynaliadwy'n golygu bod busnesau fferm proffidiol yn creu gwaith ac yn gwneud cyfraniad economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol gwerthfawr i lesiant Cymru. Ni ddylai gwarchod a rheoli ein hadnoddau naturiol wrthdaro â chynhyrchu. Yn hytrach, mae'r ddau'n dibynnu ar ei gilydd.
- **Cyswllt Ffermio**²⁷ yw'r gwasanaeth trosglwyddo gwybodaeth, arloesi ac ymgynghori o dan Raglen Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014 - 2020.
- Prosiect partneriaeth pedair blynedd yn Nhor-faen yw **Tirweddau Angof**, a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Chronfa Natur Llywodraeth Cymru. Mae gweithgareddau'r prosiect yn cynnwys ymgysylltu â'r gymuned leol, cryfhau ymwybyddiaeth a datblygu rhaglenni addysg.²⁸

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well

Ein rhywogaethau a'n cynefinoedd o'r pwys mwyaf yw'r rheini sydd wedi'u dynodi yn neddfwriaeth Ewrop, y DU a Chymru. Mae angen inni sicrhau bod unrhyw restrau o rywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf i Gymru'n rhestrau cyfoes ac yn addas at y diben - gan adlewyrchu ein hamcanion ar gyfer bioamrywiaeth.

Mae cyfres y safleoedd gwarchoddedig (gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig²⁹, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Amddiffyn Arbennig³⁰, Gwlyptiroedd Ramsar o Bwys Rhyngwladol³¹ a Pharthau Cadwraeth Morol³²) wedi'u sefydlu dros ddegawdau lawer, fel dyletswydd statudol o dan ddeddfwriaeth y DU ac Ewrop. Mae ein rhywogaethau'n cael eu gwarchod yn bennaf o dan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981³³ a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010³⁴.

Mae angen inni ddefnyddio'r ddeddfwriaeth sydd gennym i sicrhau ein bod yn diogelu ein rhywogaethau a'n cynefinoedd gwarchoddedig, a'u rheoli'n well i liniaru'r pwysau niferus y maent yn eu hwynebu³⁵.

²⁶ [Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru - Fframwaith Strategol ar gyfer Amaethyddiaeth Cymru \(2015\)](#)

²⁷ [Cyswllt Ffermio](#)

²⁸ [Tirweddau Angof](#)

²⁹ [Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig](#)

³⁰ [Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig](#)

³¹ [Gwlyptiroedd Ramsar o Bwys Rhyngwladol \(Saesneg yn unig\)](#)

³² [Parthau Cadwraeth Morol](#)

³³ [Gwybodaeth y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur am Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 \(Saesneg yn unig\)](#)

³⁴ [Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 \(Saesneg yn unig\)](#)

³⁵ [Canlyniadau prosiect Natura 2000 LIFE Cyfoeth Naturiol Cymru](#)

Fodd bynnag, mae angen inni sicrhau bod y safleoedd hyn a'n rhywogaethau a warchodir mewn cyflwr da yn eu cynefinoedd naturiol, oherwydd eu gwerth cynhenid, ac oherwydd y manteision a gawn yn eu sgil.

Mae gwella'r meysydd blaenoriaeth hyn wrth ehangu a chreu cysylltiadau rhyngddynt yn gwneud ein hecosystemau'n fwy cydnerth ac yn help i ddatblygu safleoedd gwarchodedig yn greiddiau i rwydweithiau gweithredol ar raddfa fawr yn hytrach na'u bod yn 'ynysoedd' yn y dirwedd.

Er enghraifft, mae Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â rheoli safleoedd dynodedig yn well ar raddfa fawr a thrwy hynny maent yn cynnig cysylltedd Mae Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol gan Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrrff partner eraill hefyd yn rhoi'r cyfle i ddangos 'esiamp'l' o reoli cadwraeth ar safleoedd dynodedig. Bydd safleoedd anstatudol hefyd yn cyfrannu at rwydwaith o safleoedd i gyflawni ein hamcanion bioamrywiaeth yn well.

Mae angen inni nodi cyfleoedd ar gyfer newid polisi, gan reoli'r manteision niferus a defnyddio adnoddau (dynol ac ariannol) mewn ffordd arloesol. Mae gwaith partneriaeth yn allweddol.

Ymyriadau Allweddol:

- Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru** yn parhau i weithio i gyflawni ein rhwymedigaethau deddfwriaethol o dan **Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010**³⁶, gan ddarparu ar gyfer dynodi a gwarchod 'Safleoedd Ewropeaidd', gwarchod Rhywogaethau Gwarchodedig Ewropeaidd, ac addasu rheolau cynllunio a rheolau eraill i warchod Safleoedd Ewropeaidd a **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981** sy'n gwarchod anifeiliaid, planhigion a chynefinoedd penodol.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi cyfleoedd i lunio cytundebau rheoli â thirfeddianwyr a rheolwyr tir, o dan Adran 15 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968, er mwyn sicrhau bod **Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig** yn cael eu rheoli mewn ffyrdd sy'n cadw'r nodweddion arbennig y'u dynodwyd ar eu cyfer.
- Adeiladu ar ganlyniadau **prosiect Natura 2000 LIFE Cyfoeth Naturiol Cymru**³⁷ sydd wedi nodi'r camau sydd eu hangen i wella'r ffordd y rheolir safleoedd unigol a safleoedd ledled Cymru drwy Gynlluniau Gwella sydd wedi'u Blaenoriaethu a Chynlluniau Gweithredu Thematig.
- Parhau i adolygu ein cyfres o safleoedd gwarchodedig i sicrhau ei bod yn cyflawni ein hamcanion o ran bioamrywiaeth.
- O dan **Fil yr Amgylchedd (Cymru)** rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi, drwy ymgynghori a Cyfoeth Naturiol Cymru, restr o rywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf at ddiben cynnal a chadw bioamrywiaeth

³⁶ [Gwybodaeth y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur am Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 \(Saesneg yn unig\)](#)

³⁷ [Prosiect Natura 2000 LIFE Cyfoeth Naturiol Cymru](#)

mewn perthynas â Chymru. Bydd y rhestr newydd hon yn disodli'r rhestr bresennol o rywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a nodwyd o dan Adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig³⁸.

- Darparu canllawiau ar y ffordd orau o ddiogelu'r rhywogaethau hyn sydd â blaenoriaeth, gan helpu cyrff cyhoeddus yn benodol i gyflawni'r Ddyletswydd newydd dros Fioamrywiaeth a Chydnherthedd Ecosystemau o dan Fil yr Amgylchedd (Cymru).

Enghreifftiau eraill o gamau i gyflawni'r amcan hwn:

- Rheoli Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gan Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrrff partner, megis RSPB, yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt ac Awdurdodau Lleol.
- Dethol a rheoli Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol/Safleoedd o Bwys ar gyfer Cadwraeth Natur gan Awdurdodau Lleol.
- Camau i adfer rhywogaethau penodol gan Cyfoeth Naturiol Cymru a llawer o Gyrff Anllywodraethol amgylcheddol e.e y pathew, brith y gors, y gragen las berlog dŵr croyw, y frân goesgoch a llinos y mynydd, ac is-blanhigion.³⁹

Amcan 3: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnherth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd

Mae angen cymryd camau ledled Cymru i adfer bioamrywiaeth a datblygu cydnherthedd ein hecosystemau.

Gwyddom fod llawer o'n cynefinoedd wedi'u diraddio o ran y fioamrywiaeth y gallant ei chynnal. Mae angen inni allu adnabod hyn ym mha le bynnag y mae'n digwydd, mewn ardaloedd trefol a gwledig, er enghraifft mewn parciau, ac ar ffermydd, deall sut mae adfer y cynefinoedd hyn, a rhoi'r camau hyn ar waith ar bob cyfle.

Fodd bynnag, mae angen inni hefyd nodi blaenoriaethau ar gyfer y gwaith adfer er mwyn sicrhau'r enillion mwyaf posibl ar gyfer bioamrywiaeth ar adeg pan fo adnoddau'n brin. Mae angen inni gyfeirio ein rhaglenni a'n mecanweithiau er mwyn adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio gyda'r blaenoriaethau hyn mewn golwg.

Mae angen inni integreiddio safleoedd gwarchodedig yn well â chefn gwlad ehangach, a phan gysylltir hynny'n briodol â rheoli ac adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio, bydd hynny'n datblygu cydnherthedd ein hecosystemau drwy Gymru gyfan.

³⁸ [Adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig \(Saesneg yn unig\)](#)

³⁹ Rhagor o wybodaeth ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru:
<http://www.biodiversitywales.org.uk/Rhywogaethau-yng-Nghymru>

Ymyriadau Allweddol:

- Nodi'r blaenoriaethau hanfodol ar gyfer gwaith adfer drwy gael cyngor arbenigol, mapio Gwasanaethau Ecosystem, mapio cyfleoedd, er mwyn llywio strategaethau, polisiau a chanllawiau, er enghraifft **Datganiadau Ardal** o dan Fil yr Amgylchedd.
- Defnyddio'r mesurau o dan y **Rhaglen Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig** i ddatblygu a gwireddu mentrau adfer cynefinoedd, drwy'r mesur Cydweithredol a threialu cynlluniau newydd.
- **Prosiect Adfer Mawndir** Llywodraeth Cymru - mae Cymru wedi ymrwymo i ddod â'r holl gynefinoedd mawndir yng Nghymru o dan reolaeth gynaliadwy erbyn 2020 ac mae'n ymwneud yn frwd â datblygu'r Cynnig Integredig am arian LIFE ar gyfer mawndiroedd yn y DU.

Enghreifftiau eraill o gamau i gyflawni'r amcan hwn:

- Nod prosiect adfer ucheldiroedd y **Berwyn a'r Migneint, y Mynyddoedd Du a Maesyfed**,⁴⁰ a reolir gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Helfeydd a Bywyd Gwyllt ac a noddur gan Gronfa Natur Llywodraeth Cymru, yw cefnogi adfer rhywogaethau ar raddfa tirwedd a darparu gwasanaethau ecosystem ehangach.
- Nod y **Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio**⁴¹ yw lleihau a gwrthdroi'r dirywiad yn nifer y pryfed peillio yng Nghymru drwy: ddarparu cynefinoedd mwy amrywiol cyforiog o flodau; cynnal poblogaethau cynaliadwy ac iach o bryfed peillio; codi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth; annog camau cadarnhaol gan bawb ac; adeiladu sylfaen dystiolaeth i lywio camau yn y dyfodol.

Amcan 4 - Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd

Er mwyn mynd i'r afael â'r amcan hwn, bydd angen inni ddefnyddio'r ddeddfwriaeth sydd ar waith gennym eisoes, er enghraifft, Deddf Dŵr 2003⁴², a Chyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd sy'n sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu Cymunedol ym maes polisi dŵr (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr⁴³) i frwydro yn erbyn difrod i'r amgylchedd.

Fodd bynnag, mae angen inni feddwl a chynllunio'n fwy cyfannol, gan chwilio am dulliau system-gyfan o fynd i'r afael â'r amcan hwn.

Mae Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn darparu fframwaith ac offer ar gyfer mynd i'r afael ag effeithiau negyddol ar ein bioamrywiaeth drwy ddull integredig gan ddatblygu cydnerthedd ein hamgylchedd ar yr un pryd.

⁴⁰[Taflen Ffeithiau'r Gronfa Natur - Prosiect Adfer y Berwyn, Migneint, y Mynyddoedd Du a Maesyfed](#)

⁴¹[Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio](#)

⁴²[Deddf Dŵr 2003 \(Saesneg yn unig\)](#)

⁴³[Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd \(Saesneg yn unig\)](#)

Er enghraifft, bydd defnyddio atebion yn seiliedig ar natur megis Systemau Draenio Cynaliadwy, yn lleihau effeithiau llygredd a llifogydd ar fioamrywiaeth ac yn cynyddu'r cyfleoedd i gysylltu ein cynefinoedd.

Mae seilwaith gwyrdd megis gerddi preifat, rhandiroedd a safleoedd tyfu cymunedol, coed stryd a lleiniau glas yn gallu amsugno llygryddion a rhoi cyfle i fyd natur.

Mae rhywogaethau estron goresgynnol yn fygythiad sylweddol sy'n cynyddu ac yn bwysau cynyddol bwysig ar ein cynefinoedd a'n rhywogaethau. Mae prosiect Natura 2000 LIFE Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi bod rhywogaethau estron goresgynnol yn broblem fawr ar safleoedd gwarchoddedig.

Oherwydd bod cysylltedd yn gwella, mae rhywogaethau fel hyn yn gallu lledu a chytrefu yn ein cynefinoedd a'n safleoedd pwysig gan achosi problemau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol, megis erydu pridd ar lannau afonydd. Drwy ddeall cysylltedd yn well gallai hynny fod o help inni rag-weld sut mae'r rhywogaethau estron hyn yn symud drwy'r dirwedd, ac felly lywio gwaith cynllunio prosiectau adfer ac ehangu er mwyn rheoli effeithiau'r rhywogaethau hyn yn well.

Ymyriadau Allweddol:

- Mae afonydd, llynnoedd a dyfroedd y glannau'n adnoddau naturiol hanfodol sy'n darparu cynefinoedd hollbwysig i lawer o wahanol fathau o fywyd gwyllt. Mae **Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2000**⁴⁴ yn ehangu'r warchodaeth i bob math o ddŵr ac mae'n gosod amcanion clir y mae'n rhaid eu cyflawni erbyn dyddiadau penodol.
- Nod **Asesu'r Effeithiau ar yr Amgylchedd**⁴⁵ yw atal, lleihau neu wrthbwysio effeithiau amgylcheddol niweidiol sylweddol cynigion datblygu a chryfhau rhai cadarnhaol. Yng Nghymru, daeth hyn yn ddeddf drwy Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999, fel y'u diwygiwyd.
- Er mwyn Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, rhaid asesu pob strategaeth, polisi a gweithgaredd prosiect er mwyn mesur eu heffaith ar fioamrywiaeth, a defnyddir atebion yn seiliedig ar natur i adfer cynefinoedd a gwella cysylltedd, yn ogystal, er enghraifft, â lleihau llygredd neu liniaru llifogydd.
- Mae **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**⁴⁶ yn darparu system gynllunio sy'n deg, yn gydnerth ac yn galluogi datblygu, gan helpu i greu mannau cynaliadwy lle y bydd yn haws i ddinasyddion gael gafael ar gartrefi, swyddi a seilwaith o safon, gan ddiogelu ar yr un pryd ein hamgylcheddau adeiledig a naturiol pwysicaf a chefnogi defnyddio'r Gymraeg.

⁴⁴ [Gwybodaeth y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur am Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/60/EC sy'n sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu'r Gymuned ym maes polisi dŵr \(Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr\) \(Saesneg yn unig\)](#)

⁴⁵ [Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol](#)

⁴⁶ [Deddf Cynllunio \(Cymru\) 2015](#)

- Rhaglen Creu Cynefinoedd Cenedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Cyhoeddwyd **Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynol Prydain Fawr**⁴⁷ gyntaf yn 2008 a'i diweddarau yn 2015 i ymateb i her rhywogaethau estron goresgynol ym Mhrydain.
- Bydd **Bil yr Amgylchedd (Cymru)** hefyd yn rhoi pwerau i Cyfoeth Naturiol Cymru greu cytundebau⁴⁸ rheoli tir a threialu technegau a dulliau newydd er mwyn helpu i reoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd fwy cynaliadwy.

Enghreifftiau eraill o gamau i gyflawni'r amcan hwn:

- Mae prosiect cydweithredol o dan arweiniad ffermwyr, sy'n elwa o Gronfa Natur Llywodraeth Cymru, yn gwneud **gwaith ar gysylltu cynefinoedd yn Nalgylch Afon Duhonw**⁴⁹ ym Mynyddoedd Cambria.
- O dan arweiniad Fforwm Arfordir Sir Benfro, cynllun masnachu maethynnau o ddalgylch Afon Cleddau yw'r **Bartneriaeth Fenter Ecosystemau**⁵⁰. Nod y prosiect yw lleihau allyriadau i ddalgylchoedd Afonydd Cleddau. Noddir y prosiect gan Gronfa Natur Llywodraeth Cymru.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gweithio ar brosiect uchelgeisiol i greu **cynefin morfa heli digolledol** yng Nghwm Ivy ar benrhyn Gŵyr.⁵¹

Amcan 5 Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n prosesau monitro

Er mwyn llywio'r camau a gymerwn i helpu natur i adfer, mae angen inni wella ansawdd data a'n hymddiriedaeth yn y data hynny, cyfarwyddo gwaith ymchwil perthnasol a gwaith ymchwil wedi'i flaenoriaethu ac adolygu a datblygu gwaith monitro a goruchwylio. Mae'n hanfodol hefyd bod data dibynadwy ar gael i bobl sy'n gwneud penderfyniadau ar bob lefel o reolwyr tir i'r Llywodraeth.

Rhaid inni sicrhau bod y dystiolaeth a'r wybodaeth orau ar gael inni er mwyn:

- deall sut mae bioamrywiaeth yn sbarduno ac yn cefnogi'r ffordd y mae ecosystemau'n gweithredu,
- monitro statws a thueddiadau ym maes bioamrywiaeth,
- adrodd ar ein cynnydd tuag at wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth,
- llywio polisïau yn y dyfodol i gyflawni ein hamcanion.

Mae angen inni hefyd ddatblygu set o ddangosyddion bioamrywiaeth i Gymru a fydd yn monitro ein cynnydd tuag at nod Cymru Gydnerth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r

⁴⁷ [Strategaeth rhywogaethau Estron Goresgynol Prydain Fawr - Awst 2015 \(Saesneg yn unig\)](#)

⁴⁸ [Taflen Ffeithiau Bil yr Amgylchedd \(Cymru\) - Cytundebau Rheoli Tir a Chynlluniau Arbrofol](#)

⁴⁹ [Taflen Ffeithiau'r Gronfa Natur: Cysylltu Cynefinoedd yn Nalgylch Duhonw](#)

⁵⁰ [Taflen Ffeithiau'r Gronfa Natur: Partneriaeth Fenter yr Ecosystem - Cynllun Masnachu Maethynnau ar gyfer dalgylch afonydd Cleddau](#)

⁵¹ [Prosiect newydd i greu cynefin morfa heli digolledol](#)

Dyfodol (Cymru) 2015, yn cyfrannu at asesu cyflwr ein hadnoddau naturiol, a chaniatáu inni fesur i ba raddau yr ydym yn cyflawni amcanion y Cynllun Adfer Natur.

Ymyriadau Allweddol:

- Defnyddir Dangosyddion Cenedlaethol i fesur y cynnydd tuag at y nodau llesiant a gyflwynir yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**.
- Defnyddio **Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol**⁵² a'r **System Cofnodi Camau Bioamrywiaeth**⁵³ yn well.
- Nod **Prosiect Bylchau Tystiolaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**⁵⁴ yw mynd i'r afael â bioamrywiaeth a bylchau yn y dystiolaeth am ecosystemau, ymgysylltu â'r gymuned ymchwil yng Nghymru, a'r tu hwnt, rhoi dulliau newydd ar waith, integreiddio â mecanweithiau sydd ar gael eisoes, a sicrhau bod dystiolaeth a chyngor da ar gael i'r Llywodraeth, sector yr amgylchedd ac eraill.
- Datblygwyd **Lle – Porth Daear**⁵⁵ yn bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Canolfan data a gwybodaeth yw Lle sy'n ymwneud ag ystod eang o bynciau, ond ym maes yr amgylchedd yn bennaf.
- Mae **Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir**⁵⁶ wedi cael ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i asesu perfformiad Glastir, gan ddefnyddio dulliau arloesol i fonitro cyflwr cynefinoedd yng Nghymru.

Enghreifftiau eraill o gamau i gyflawni'r amcan hwn:

- Mae'r **Rhestr Coetiroedd Hynafol**⁵⁷ yn rhestru coetiroedd lle y cafwyd gorchudd o goetir ers canrifoedd. Mae'r coetiroedd hyn yn nodweddiadol amrywiol o safbwynt ecoleg ac yn werthfawr iawn o safbwynt cadwraeth natur.
- Mae **ysgrifenyddiaeth rhywogaethau estron Prydain Fawr**⁵⁸ yn darparu pecynnau a gwybodaeth ar gyfer y rhai sy'n gweithio i gefnogi **Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr**.

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

Mae angen inni sicrhau bod gennym y sgiliau, y gweithwyr, yr arbenigedd a'r swyddogaethau i gyflawni ein hamcanion a sicrhau bod bioamrywiaeth yn bwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.

⁵² [Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol](#)

⁵³ [System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth \(Saesneg yn unig\)](#)

⁵⁴ [Prosiect Bylchau Tystiolaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru](#)

⁵⁵ [Lle - Porth-Daear](#)

⁵⁶ [Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir](#)

⁵⁷ [Rhestr Coetiroedd Hynafol](#)

⁵⁸ [Ysgrifenyddiaeth rhywogaethau estron goresgynnol Prydain Fawr \(Saesneg yn unig\)](#)

Bydd yn ofynnol i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a sefydlir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 roi sylw i Ddatganiadau Ardal wrth baratoi cynlluniau llesiant lleol. Mae angen inni sicrhau bod y rhain yn seiliedig ar wybodaeth briodol a digonol ac yn cael eu blaenoriaethu cystal â phosibl, a bod y wybodaeth hon yn cael ei hystyried mewn prosesau cynllunio a phenderfynu lleol.

Mae llawer o waith gwerthfawr wedi'i wneud eisoes ar lawr gwlad yng Nghymru gan Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a Phartneriaethau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, llu o gyrff ym maes yr amgylchedd a chadwraeth, yn ogystal â busnesau ac unigolion, gan gynnwys ffermwyr, drwy waith gwirfoddol a chynlluniau amaeth-amgylcheddol.

Mae angen inni barhau i gefnogi'r gwaith hwn, gan roi Fframwaith Adfer Natur ar waith a hwyluso cydweithio er mwyn cyflawni ein hamcanion; a darparu'r trefniadau llywodraethu a'r cymorth sydd eu hangen i sicrhau ei fod yn gwireddu'n huchelgais.

Bydd hyn yn cynnwys:

- ein rheolwyr tir yn cymryd camau ar lawr gwlad ac arferion gweithio effeithlon o ran adnoddau
- gyrff amgylcheddol yn gwneud gwaith ar raddfa tirwedd ac yn cydgysylltu cynlluniau
- Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff cyhoeddus yn Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy
- awdurdodau lleol a phartneriaethau lleol yn llywio ac yn bwydo i ddatganiadau ardal
- gyrff cyhoeddus, o dan arweiniad Llywodraeth Cymru, yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn bwrw gwreiddiau mewn polisïau a rhaglenni
- busnesau'n arloesi gydag arferion cynaliadwy a mecanweithiau prisio bioamrywiaeth

Mae angen hefyd inni sicrhau ein bod yn monitro ein cynnydd o'i gymharu â'n hamcanion, ac yn adolygu'n rheolaidd y camau a gymerwn.

Yn ei hanfod, mae angen inni roi adnoddau (dynol ac ariannol) ar waith i gyflawni ein hamcanion adfer natur. Mae angen inni ddefnyddio ein dychymyg a bod yn arloesol wrth ddefnyddio ffynonellau arian, gan ddatblygu mecanweithiau newydd megis Talu am Wasanaethau Ecosystem. Fodd bynnag, mae angen hefyd inni sylweddoli pwysigrwydd a gwerth bioamrywiaeth, a sicrhau bod y gwerthoedd hyn yn cael eu hymgorffori yn y broses benderfynu ar gam cynnar. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnig cyfle i gynnwys darparu adnoddau ar gyfer gweithredu ym maes bioamrywiaeth yn y broses benderfynu ganolog, ac mae angen inni ddefnyddio hyn i sicrhau'r dylanwad mwyaf.

Ymyriadau Allweddol:

- Sicrhau bod pob mecanwaith ariannu drwy grant yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ran cyflawni nod Cymru Gydnerth, er enghraifft: **arian craidd ac arian ar gyfer prosiectau ar raddfa fach**.
- Rhoi **Fframwaith Adfer Natur** ar waith i ddwyn ynghyd y prif sefydliadau sy'n cymryd camau i adfer natur yng Nghymru, gan gynnwys y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol, i sicrhau eu bod i gyd yn cael eu cydgysylltu â'r ddeddfwriaeth newydd, (e.e. Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) sy'n cynrychioli holl reolwyr a pherchnogion tir, a sicrhau llif o wybodaeth ac adborth i bolisiâu ac ohonynt.
- Cynnwys proses ddiwygio **Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**⁵⁹ a **phartneriaethau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol** yng Nghymru⁶⁰. Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn cyflawni rôl arwain ac yn darparu gwasanaeth arbenigol i lywio blaenoriaethau gweithredu ym maes bioamrywiaeth ac ecosystemau yng Nghymru gan hwyluso cyflawni camau lleol ac adrodd arnynt drwy reoli Cynlluniau Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth ar y System Adrodd a chysylltu hynny â chamau lleol a gymerir gan eraill.
- Annog camau ymarferol i gryfhau bioamrywiaeth a gwella ein hamgylchedd drwy gefnogi ceisiadau i **Raglen LIFE yr UE**⁶¹
- Rhaglen saith mlynedd Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig yw'r Rhaglen Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig a noddir gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru. Ymhlith y gweithgareddau sy'n gymwys i gael cymorth ariannol mae adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth⁶²

⁵⁹ [Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru](#)

⁶⁰ [Partneriaethau Bioamrywiaeth Lleol](#)

⁶¹ [Rhaglen LIFE yr UE \(Saesneg yn unig\)](#)

⁶² [Rhaglen Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig 2014-2020](#)

6. CAMAU GWEITHREDU ER MWYN ADFER NATUR YN YR AMGYLCHEDD MOROL

Yn yr adran hon, crynhoir y camau y mae angen eu cymryd er mwyn cyflawni ein hamcanion a'r rhaglenni a'r mecanweithiau sydd eu hangen i ategu'r camau hyn yn yr amgylchedd morol.

Er mwyn cyflawni ein hamcanion ar gyfer yr amgylchedd morol, byddwn yn defnyddio'r Rhaglen Newid Morol yn gyfrwng i gyflawni ein nodau fel rhan o'n gweledigaeth ehangach i sicrhau moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol yng Nghymru.

Rhan 2 o'r Cynllun Adfer Natur yw'r Cynllun Gweithredu sy'n dangos y camau'n fanylach. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau ein bod yn dal i weithredu ar y prif flaenoriaethau er mwyn gwireddu ein hamcanion.

Er bod cysylltiad agos rhwng yr amgylchedd daearol a'r amgylchedd morol, mae nifer o wahaniaethau amlwg y mae angen eu hystyried wrth ddatblygu camau i adfer natur yn yr amgylchedd morol:

- Mae'r amgylchedd morol yn ddeinamig iawn, ac mae'r prosesau ffisegol (y llanw, y llif a'r cerrynt), strwythur yr ecosystemau, nodweddion rhywogaethau, poblogaethau a chymunedau'n wahanol i'r rhai sydd ar y tir.
- mae cydgysylltiad agos iawn rhwng gwahanol elfennau'r amgylchedd morol; mae dosbarthiad gofodol llawer o rywogaethau yn dibynnu ar geryntau a'r llanw ac nid yw'r seilwaith trafndiaeth, trefoli ac amaethyddiaeth yn tarfu arnynt fel sy'n digwydd ar y tir.
- mae ardal sylweddol o'n môr yn elwa ar gael ei gwarchod eisoes dan gynlluniau gofodol; mae 75% o'n harfordir a 35% o'n môr yn dod o fewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig (o'i gymharu â 12% ar y tir).
- mae gwahaniaeth o ran perchnogaeth; mae mwyafrif y blaendir a gwely'r môr yn eiddo i Ystâd y Goron ac felly nid oes ffiniau yn y môr rhwng awdurdodau lleol, ac eithrio'r ardal rynglanw ac arfordirol allan at linell y Cymedr Distyll.
- mae'r rhan fwyaf o'r môr ar agor i bobl ac felly mae gofyn cael cydweithrediad a chymorth ystod eang o ddefnyddwyr y môr er mwyn creu newid, ond mae rheoleiddio a gorfodi gweithgareddau, yn enwedig mewn ardaloedd diarffordd, yn her.
- mae monitro'r amgylchedd morol yn dechnegol heriol oherwydd bod y dŵr yn creu rhwystr gweledol a ffisegol sy'n golygu ei bod yn fwy anodd deall a chyflwyno camau effeithiol i adfer bioamrywiaeth.

Oherwydd y gwahaniaethau hyn, mae'r camau i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth y môr ac ecosystemau'r môr hefyd yn wahanol i'r rhai sydd eu hangen ar gyfer yr amgylchedd daearol. Mae ein camau allweddol, y rhoddir manylion yn eu cylch isod, yn pontio nifer o amcanion y Cynllun Adfer Natur ac yn adlewyrchu pwysigrwydd dyfroedd Cymru ar lefel leol, cenedlaethol a rhyngwladol:

Amcan 1: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel

Rydym yn rhoi gwerth mawr ar fioamrywiaeth a dyma pam rydym wedi mabwysiadu egwyddorion y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. Rydym hefyd yn rhoi Cyfarwyddeb y Fframwaith Strategaeth Forol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ar waith, ynghyd â Bil yr Amgylchedd (Cymru) pan ddaw'n ddeddf. Gyda'i gilydd, bydd ein deddfwriaeth yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn ystyriaeth allweddol ym mhob penderfyniad a wneir yng Nghymru.

Rydym wedi sefydlu nifer o fforymau sy'n dod â rhanddeiliaid morol a physgodfeydd ynghyd, ac mae hyn, ochr yn ochr â'n hymarferion cyfranogiad cyhoeddus, lle bydd angen, yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol ac yn ystyrlon i gefnogi a llywio cyflawni'r Rhaglen Newid Morol.

Yn ogystal â **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** a **Bil yr Amgylchedd (Cymru)** mae gennym ddrafft cyntaf **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru**⁶³ a **Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol**, ill dau'n nodi targedau, amcanion neu bolisiau penodol i helpu i adfer bioamrywiaeth y môr lle bydd angen hynny, ac maent yn rhoi'r dull ecosystemau wrth galon penderfynu ar gyfer yr amgylchedd morol.

Ymyriadau Allweddol:

- Rydym wedi sefydlu'r **grwpiau rhanddeiliaid** a ganlyn:
 - Grŵp Cynghori Strategol Cymru ar Faterion Morol sy'n cynnwys ystod eang o gynrychiolwyr o blith defnyddwyr y môr, megis byd diwydiant (agregau, pysgodfeydd, ac adnoddau adnewyddadwy) cychod masnachol a chychod hamdden, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Awdurdodau Porthladdoedd Lleol a grwpiau â budd amgylcheddol.
 - Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru a Grwpiau Pysgodfeydd y Glannau. Mae'r rhain yn cynnwys cynrychiolwyr cymdeithasau pysgodfeydd, pysgotwyr hamdden, grŵp budd amgylcheddol a gwyddonwyr môr.
 - Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol. Mae'r grŵp hwn yn helpu i lywio'r dulliau a ddefnyddir i gynllunio ar gyfer y môr yng Nghymru.

- Bydd **Cynllun Morol Cenedlaethol** cyntaf Cymru yn integreiddio ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan ddarparu polisiau a chyfeiriad clir i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a defnyddwyr y môr er mwyn defnyddio ein hardal forol mewn ffordd gynaliadwy. Bydd y cynllun morol hefyd yn rhoi'r dull ecosystemau wrth galon penderfyniadau ac yn sicrhau bod penderfyniadau ynghylch yr amgylchedd morol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

⁶³ [Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru](#)

Yn ategu'r cynllun morol bydd ein sylfaen dystiolaeth - Adroddiad Tystiolaeth Forol Cymru⁶⁴ a'r Porthol Cynllunio Morol⁶⁵, arf cynllunio rhyngweithiol a fydd yn ategu'r broses cynllunio morol drwy: gryfhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r data sydd ar gael eisoes ar gyfer moroedd Cymru, gan ein helpu i ddeall y sylfaen dystiolaeth sydd ar gael yn awr a rhoi cyfle i bartion â budd yn hyn gynnig sylwadau am y sylfaen dystiolaeth a'r angen i sicrhau bod rhagor o dystiolaeth ofodol ar gael neu awgrymu bod angen tystiolaeth o'r fath.

Bydd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru hefyd yn cyflawni amcanion 2- 5.

- **Cyflawni'r Prosiect Gwell Pysgodfeydd.** Gan weithio gyda Grwpiau Pysgodfeydd y Glannau rydym yn gweithio tuag at ddull rheoli pysgodfeydd ar lefel yr ecosystem ac arferion pysgota sy'n fwy cynaliadwy ac yn fwy derbyniol o safbwynt yr amgylchedd, gan ddefnyddio tystiolaeth ddibynadwy. Yn benodol, cyn bo hir, byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth newydd am gramenogion. Rydym yn blaenoriaethu diweddarau deddfwriaeth i reoli pysgodfeydd ar gyfer draenogiaid y môr, gwichiaid moch a chregyn bylchog ym Mae Ceredigion. Rydym hefyd yn cyflawni'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin diwygiedig ac yn asesu gweithgareddau pysgota Cymru ar safleoedd morol Ewrop.

Drwy'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin diwygiedig, sefydlir fframwaith i reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy a sicrhau'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf posibl ar gyfer pob pysgodfa fawr erbyn 2020. Bydd y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin hefyd yn rhoi amodau ar waith sy'n cynnig gwell dyfodol i bysgod a physgodfeydd yn ogystal ag i'r amgylchedd morol sy'n eu cynnal, oherwydd bod pysgod a physgod cregyn yn dibynnu ar iechyd a chydnerthedd ein hecosystemau er mwyn iddynt ffynnu.

Bydd cyflawni'r prosiect Gwell Pysgodfeydd hefyd yn cyflawni amcanion 5 a 6.

Enghraifft arall o gamau i gyflawni'r amcan hwn:

- Prosiect ar y cyd rhwng PLAS a Chymdeithas Pysgotwyr Cymru sy'n cael ei reoli gan Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a Sarnau yw'r **Prosiect Ecosystemau Morol** (prosiect dull rheoli ar lefel yr ecosystem ym Mhen Llŷn). Mae grŵp llywio wedi'i sefydlu sy'n cynnwys rhanddeiliaid morol a physgodfeydd i ystyried sut y gall y diwydiant pysgota chwarae mwy o ran mewn rheoli'r môr. Datblygwyd y prosiect hwn gan Gymdeithas Pysgotwyr Cymru.

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well

⁶⁴ [Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru](#)

⁶⁵ [Porthol Cynllunio Morol](#)

Mae Cymru ar y ffin rhwng tri pharth hinsawdd cefnforol (Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd, Arctig Boreal, Lwsitania) a dyma'r sylfaen ar gyfer bywyd morol cyfoethog ein moroedd. Mae amrywiaeth ein cynefinoedd morol yn cynnal ystod eang o rywogaethau sydd o bwys yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae deddfwriaeth Ewrop a'n deddfwriaeth ddomestig, er enghraifft, y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar, yn darparu'r offer sydd eu hangen arnom i ddiogelu rhywogaethau a chynefinoedd penodol gwarchoddedig yn y môr ac mae'n darparu ar gyfer creu a rheoli rhwydwaith ecolegol cydlynol o ardaloedd morol gwarchoddedig sy'n cael eu rheoli'n dda ac sy'n cefnogi poblogaeth bwysig o rywogaethau a chynefinoedd sydd o ddiddordeb.

Mae gennym 128 o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig⁶⁶ sydd wedi'u dynodi eisoes, ac mae'r rhain yn cynnwys 75% o'n harfordir a 35% o'n moroedd. Gyda'i gilydd mae'r Ardaloedd Morol Gwarchoddedig hyn yn ffurfio rhwydwaith o safleoedd o amgylchedd Cymru, y DU a'r tu hwnt.

Yng Nghymru, ein Hardaloedd Morol Gwarchoddedig yw:

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig
- Parthau Cadwraeth Morol
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- Safleoedd Ramsar sy'n cynnwys elfen forol

Gan fod cynefinoedd a rhywogaethau wedi'u cydgysylltu yn yr amgylchedd morol, rydym yn anelu at rwydwaith o safleoedd sydd wedi'u dynodi er mwyn amddiffyn yr ystod o gynefinoedd a rhywogaethau, sy'n gydnerth ac yn gallu ymaddasu neu adfer yn gyflym pan effeithir arnynt, ac sy'n gallu cysylltu ardaloedd a chaniatáu i rywogaethau symud o un ardal i'r llall.

Ymyriadau Allweddol:

- Rydym yn cyfrannu at rwydwaith ecolegol cydlynol o **Ardaloedd Morol Gwarchoddedig**. Mae'r Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn elfen allweddol o'n gwaith morol yng Nghymru er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio ein moroedd mewn ffordd gynaliadwy ac yn eu diogelu ar gyfer y dyfodol. Rydym hefyd yn asesu'r cyfraniad y mae ein safleoedd presennol yn ei wneud at y rhwydwaith ehangach i weld a oes angen rhagor o warchodaeth.
- Rydym wedi sefydlu Grŵp Llywio i Reoli'r Ardaloedd Morol Gwarchoddedig i gydweithio â ni i sicrhau bod gennym rwydwaith o Ardaloedd sydd wedi'u rheoli'n dda. Daw aelodau'r grŵp o'r awdurdodau yng Nghymru sydd â dyletswyddau statudol sy'n berthnasol i ddyfroedd Cymru.

Bydd rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchoddedig hefyd yn cyflawni amcanion 4 a 6.

⁶⁶ [Ardaloedd Morol Gwarchoddedig \(Saesneg yn unig\)](#)

- Mae rhestr o rywogaethau Ewropeaidd y mae'n ofynnol eu gwarchod yn llym i'w gweld yn Atodiad IV o'r **Gyfarwyddeb Gwarchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion**. Mae Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 yn ei gwneud yn drosedd lladd, anafu a dal Rhywogaethau Gwarchodedig Ewrop neu darfu arnynt yn fwriadol, sef y rhai a restrir yn Atodiad IV.
- Mae **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981** (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn drosedd (yn ddarostyngedig i eithriadau) i fynd ati'n fwriadol i ladd, anafu neu gipio unrhyw anifail gwyllt sydd wedi'i restru yn Atodlen 5 ac mae'n gwahardd tarfu ar fannau a ddefnyddir i'w llochesu neu i'w gwarchod, neu darfu'n fwriadol ar anifeiliaid sy'n byw mewn mannau o'r fath. Mae'r Ddeddf hefyd yn gwarchod mathau penodol o ladd, anafu neu gipio anifeiliaid gwyllt.
- Mae rhestr o'r rhywogaethau sydd o'r pwys mwyaf i Gymru i'w gweld yn Adran 42 o **Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006**. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i warchod bioamrywiaeth wrth ymgymryd â'u cyfrifoldebau. Cyn bo hir, bydd **Bil yr Amgylchedd (Cymru)** yn cryfhau'r ddyletswydd hon.

Amcan 3: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd

Mae adfer bioamrywiaeth y môr yn ymrwymiad parhaus gan Lywodraeth Cymru. Bydd adfer a gwella bioamrywiaeth y môr yn meithrin cydnerthedd ein hecosystemau, gan sicrhau eu bod yn gallu ymaddasu i newid a pharhau i ddarparu'r manteision hanfodol i'n cymdeithas megis bod yn ffynhonnell fwyd iach, ein hamddiffyn rhag trychinebau naturiol a rheoleiddio ein hinsawdd.

Drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio, gallwn atgyweirio'r difrod sydd wedi'i wneud i ardaloedd, a'u helpu i ddychwelyd i'w cyflwr naturiol a fydd o fudd i rywogaethau sy'n dibynnu ar y cynefin i oroesi ac o ganlyniad datblygu cydnerthedd ein hecosystemau. Drwy gryfhau'r amgylchedd morol, gallwn wella a chynyddu ei ansawdd a'i werth.

Rydym eisoes yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at ddiogelu bioamrywiaeth y môr a'r amgylchedd morol ehangach drwy gyflawni ein Rhaglen Newid Morol. Serch hynny, rydym yn anelu at wneud rhagor.

Ymyriadau Allweddol:

- Byddwn yn gweithio gyda Grŵp Cyngori Rhanddeiliaid Morol Cymru i sefydlu **Grŵp Gorchwyl a Gorffen** i nodi a chyflawni cyfleoedd i adfer a gwella cynefinoedd a rhywogaethau yn yr amgylchedd morol lle bydd angen hynny.

Bydd adfer a gwella cynefinoedd a rhywogaethau'n cyflawni amcanion 2, 4 a 5.

Enghraifft arall o gamau i gyflawni'r amcan hwn:

- Ardal Gadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau sy'n rhedeg **Prosiect morwellt Porthdinllaen**⁶⁷ a'i nod yw gwella'r traethellau llaid a thywod rhynglanw i sicrhau cyflwr ffafriol. Mae morwellt yn elfen o'r traethellau llaid a thywod sydd dan bwysau ar hyn o bryd yn sgil gweithgareddau dynol megis angorfeydd ac angori. Sefydlwyd grŵp llywio gan swyddog yr Ardal Cadwraeth Arbennig sy'n cynnwys defnyddwyr a rheolwyr y safle (Ardal Cadwraeth Arbennig PLAS, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn, y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol, Clwb Hwyllo Porthmadog) i edrych ar amrywiaeth o faterion megis casglu tystiolaeth leol i ddangos gwerth y cynefin yn lleol ac ystyried opsiynau rheoli (addasu angorfeydd, defnyddio angorau heligol, parth angori).

Amcan 4 Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar ein rhywogaethau a'n cynefinoedd

Gweithgarwch dynol anghynaliadwy, newid yn yr hinsawdd a rhywogaethau estron goresgynnol yw'r prif ddylanwadau sy'n rhoi bioamrywiaeth y môr dan bwysau. Bydd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn sicrhau bod penderfyniadau ynghylch yr amgylchedd morol yn cael eu gwneud mewn ffordd gynaliadwy. A bydd Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol sy'n ceisio cyflawni Statws Amgylcheddol D erbyn 2020, yn mynd i'r afael â ffactorau niweidiol sy'n effeithio ar iechyd bioamrywiaeth y môr, megis rhywogaethau estron goresgynnol a sbwriel yn y môr. Mae Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn disgrifio Statws Amgylcheddol Da drwy ddefnyddio 11 disgrifydd, sy'n cynnwys agweddau pwysig ar ecosystem y môr a'r holl brif fathau o ddylanwadau dynol sy'n eu rhoi dan bwysau.

Bydd Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol hefyd yn cyflawni amcanion 1, 2, 3 a 5.

Ymyriadau Allweddol:

- O dan **Ddisgrifydd 2 Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol** (rhywogaethau estron goresgynnol) sefydlwyd rhestr o flaenoriaethau ar gyfer y rhywogaethau hyn ar lefel y DU. Byddant yn cael eu monitro a'u goruchwylio.
- Hefyd, o dan Ddisgrifydd 2 Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol mae'r **prosiect llwybrau morol** wedi ymchwilio i'r prif lwybrau y mae rhywogaethau estron goresgynnol yn eu defnyddio i gyrraedd dyfroedd Cymru.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Natural England wedi cydgyhyrchu **Canllawiau Cynllunio Bioddiogelwch**⁶⁸ i helpu datblygwyr a defnyddwyr y môr i fynd i'r afael â lledaenu a chyflwyno rhywogaethau estron goresgynnol.
- Mae'r **Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr** yn hybu rheoli dŵr ac yn gosod ymrwymiad i sicrhau statws da ar gyfer pob corff dŵr, gan gynnwys dyfroedd morol hyd at un filltir forol o'r lan. Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn

⁶⁷ [Prosiect morwellt Porthdinllaen](#)

⁶⁸ [Canllawiau Cynllunio Bioddiogelwch \(yn Saesneg yn unig\)](#)

ceisio gwarchod a chryfhau statws ecosystemau a gwlypdiroedd sy'n dibynnu ar ddŵr o ansawdd da ac yn ceisio'u hatal rhag dirywio eto.

Bydd y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr hefyd yn cyflawni amcanion 1, 5 a 6.

Amcan 5 Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n prosesau monitro

O dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, mae nifer o dargedau a dangosyddion wedi'u sefydlu i fonitro ein cynnydd tuag at gyflawni Statws Amgylcheddol Da yn ein dyfroedd erbyn 2020. Mae Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn gweithredu ar gyloch chwe blynedd. Bydd y cynnydd, o'i gymharu â'r Statws Amgylcheddol Da, yn cael ei adolygu bob chwe blynedd (bydd yr adolygiad nesaf yn 2018) a bydd hyn yn gyfle i ystyried a oes angen diweddarau'r targedau, y dangosyddion a mesurau cysylltiedig.

Ymyriadau Allweddol:

- Mae **rhaglen fonitro** yn cael ei sefydlu o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol i sicrhau monitro cydlynol er mwyn mesur statws amgylcheddol ein hamgylchedd morol yn barhaus. Bydd hefyd yn tynnu sylw at y meysydd hynny lle mae angen rhagor o ymchwil i wella ein sylfaen dystiolaeth.
- Rydym wrthi'n datblygu **Strategaeth Tystiolaeth Forol**. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth yn Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru i sefydlu, drwy ein proses cynllunio morol, ein blaenoriaethau a'n hanghenion o ran tystiolaeth strategol a fydd yn cefnogi'r broses o roi cynlluniau morol ar waith.

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

Mae gwahaniaethau rhwng yr amgylchedd morol a'r amgylchedd daearol o ran perchnogaeth a rheolaeth. Ar y môr, nid oes ffiniau rhwng awdurdodau lleol, ac eithrio yn yr ardaloedd rhynglanw ac ar y glannau. Felly, rydym yn dibynnu ar gymorth a chydweithrediad pawb sy'n defnyddio'r môr.

Mae'r rhan fwyaf o'r môr yn agored i bawb ac felly mae'n golygu bod rheoleiddio a gorfodi gwahanol weithgareddau'n fwy heriol. Bydd Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru yn help i reoli a gwarchod yr amgylchedd morol yn effeithiol oherwydd bydd yn sicrhau bod penderfyniadau a wneir ynghylch gweithgareddau yn yr amgylchedd morol yn gynaliadwy, a bod sylw'n cael ei roi i bolisiau ar gyfer y tir a'r môr wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar ardaloedd y glannau.

Ymyriadau Allweddol:

- Rydym yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid morol i wella effeithiolrwydd ein **Hardaloedd Morol Gwarchodedig** ac i asesu'r anghenion rheoli. Mae nifer o

offer a fydd yn help i reoli'n rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n canolbwyntio ar gadw, adfer a gwella bioamrywiaeth y môr. Sef:

- Cynlluniau Gweithredu Thematig - a gynhyrchwyd ar gyfer pob un o'r prif faterion sy'n effeithio ar safleoedd Natura 2000 ledled Cymru i ganolbwyntio ar gamau ar lefel ranbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol hyd yn oed, yn hytrach nag ar lefel safle.
- Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth - a grëwyd ar gyfer pob safle Natura 2000 yng Nghymru. Mae'r Cynlluniau hyn yn tynnu sylw at y materion sy'n flaenoriaeth ar lefel safleoedd, yn ogystal â rhestru'r costau ar gyfer gweithgareddau a ffynonellau cyllido.

Bydd rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig hefyd yn cyflawni amcanion 1, 2 a 4.

GEIRFA

Adnoddau naturiol: Pob organeb fyw (ac eithrio pobl) ac elfennau a deunyddiau anfyw yr amgylchedd naturiol; ein hadnoddau daearegol, aer, dŵr, pridd, llanw, gwynt a haul.

Amrywiaeth genetig: Amrywiaeth y deunydd genetig o fewn rhywogaeth. Mae mwy o amrywiaeth genetig yn golygu bod rhywogaeth yn gallu addasu'n well i newid amgylcheddol ac felly bod ganddi fwy o gyfle i oroesi.

Asideiddio: Pan fydd basau maethynnau (calsiwm, magnesiwm a photasiwm) yn cael eu disodli gan elfennau asidaidd (hydrogen ac alwminiwm).

Atebion yn seiliedig ar natur: atebion sy'n cael eu hysbrydoli neu eu hategu gan natur, sy'n gosteffeithiol, ac ar yr un pryd yn darparu manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ac yn helpu i ddatblygu cydnerthedd.

Bioamrywiaeth: Yr amrywiaeth o fywyd sydd ar y ddaear. Mae'n cynnwys pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid, eu helaethrwydd a'u hamrywiaeth genetig.

Cyfalaf naturiol: Rhannau o'r amgylchedd naturiol sy'n cynhyrchu gwerth i bobl.

Cynefin Y man neu'r math o safle lle mae organeb neu boblogaeth yn digwydd yn naturiol.

Cysylltedd cynefinoedd: Sut mae darnau o gynefin wedi'u cysylltu â'i gilydd i ffurfio rhwydwaith o gynefinoedd cysylltiedig sy'n caniatáu i rywogaethau symud o'r naill ardal i'r llall.

Darnio cynefinoedd: Cynefinoedd yn cael eu gwahanu'n ardaloedd llai yn sgil newid yn y ffordd y caiff tir ei ddefnyddio a'i ddatblygu.

Deunydd genetig: Unrhyw ddeunydd sy'n deillio o blanhigion, anifeiliaid, o darddiad microbaidd neu o darddiad arall sy'n cynnwys unedau swyddogaethol etifeddeg.

Ecosystem gydnerth/cydnerthedd ecosystemau: Ecosystem gydnerth yw un sy'n iach ac yn gweithio mewn ffordd sy'n gallu ymdopi â'r pwysau a'r gofynion a roddir arni, ac sy'n gallu darparu manteision yn y tymor hir i ddiwallu anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y presennol. Mae pedair prif briodoledd yn perthyn i gydnerthedd: cynyddu amrywiaeth; ehangu ecosystemau drwy leihau darnio; cynyddu'r cysylltedd o fewn ecosystemau a rhyngddynt; gwella cyflwr. Bioamrywiaeth yw sylfaen y cydnerthedd hwn.

Ecosystem: Uned weithredol sy'n cynnwys organebau byw (planhigion, anifeiliaid a micro-organebau) ynghyd â'u hamgylchedd anfyw (aer, dŵr, mwynau a phridd) a'r holl ryngweithio amrywiol a chymhleth sy'n digwydd rhyngddynt. Gallant weithredu ar lawer o wahanol raddfeydd.

Ewtroffigedd: Ychwanegu rhagor o faethynnau at ddŵr ffres a/neu systemau morol, gan arwain at fwy o dwf mewn planhigion ac yn aml at newidiadau annymunol yn strwythur a swyddogaeth ecosystemau.

Gorymelwa ar fyd natur: Defnyddio ein hadnoddau naturiol mewn ffordd anghynaliadwy; cynaeafu mwy nag sy'n cael ei ailgynhyrchu.

Gwasanaethau/manteision ecosystem: Y manteision y bydd pobl yn eu cael gan ecosystem. Gellir eu rhannu'n 4 categori:

- **Gwasanaethau ategol** y mae eu hangen i gynhyrchu holl wasanaethau ecosystemau eraill, megis ffurfio pridd, cylchu maetholion a chynhyrchu sylfaenol.
- **Gwasanaethau darparu** megis cnydau; pysgod; coed a deunydd genetig.
- **Gwasanaethau rheoleiddio** megis puro dŵr; rheoli llifogydd; dal a storio carbon a pheillio.
- **Gwasanaethau diwylliannol** sy'n darparu ffynhonnell esthetig, ysbrydol, crefyddol, adloniadol neu wyddonol i gyfoethogi bywyd

Gwerth cynhenid: Gwerth adnoddau naturiol e.e. ecosystemau, cynefinoedd a rhywogaethau, er eu mwyn eu hunain.

Natur: Ein rhywogaethau a'u cynefinoedd, eu hamrywiaeth a'u helaethrwydd.

Rheolwyr a defnyddwyr adnoddau naturiol: Unrhyw un sy'n rheoli neu'n defnyddio adnoddau naturiol e.e. rheolwyr tir, ffermwyr, pysgotwyr.

Rhywogaethau Estron Goresgynnol: Organeb (planhigyn, anifail, ffwng, neu facteriwm) nad yw'n frodorol ac sy'n amharu ar ein heconomi, ein hamgylchedd neu'n hiechyd.

Rhywogaethau: Grŵp o organebau sy'n gallu bridio'n llwyddiannus gyda'i gilydd gan gynhyrchu epil iach sy'n gallu rhyngfridio.

Seilwaith gwyrdd: Rhwydwaith o fannau gwyrdd mewn ardaloedd trefol a gwledig megis gerddi preifat, rhandiroedd, coed stryd, lleiniau glas a gwrychoedd sy'n darparu manteision i ecosystemau ac yn cyfrannu at lesiant pobl.

Systemau draenio trefol cynaliadwy: Dewis arall yn lle draenio confensiynol drwy bibellau, sy'n cynnig manteision o ran diogelu ansawdd dŵr a lleihau'r risg o lifogydd, ac mae'n gallu darparu amwynder a chyfleoedd o ran bioamrywiaeth.

Trefoli: Cynnydd yng nghyfran y bobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol. Mae'n golygu hefyd fabwysiadu nodweddion ardaloedd trefol.

Atodiad 1: Prif dueddiadau ac ystadegau bioamrywiaeth yng Nghymru

Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU

Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU oedd y dadansoddiad cyntaf o amgylchedd naturiol y DU o ran y manteision y mae'n eu darparu i gymdeithas ac i ffyniant economaidd parhaus.

Deilliodd yr angen am Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU yn sgil cynnal [Asesiad Ecosystemau'r Mileniwm](#), a oedd nid yn unig yn dangos pwysigrwydd gwasanaethau ecosystem i lesiant pobl ond hefyd yn dangos bod llawer o wasanaethau allweddol yn cael eu diraddio a'u colli ar raddfa fyd-eang. Yn sgil hyn, argymhelliad Archwiliad Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin yn 2007 oedd y dylai'r Llywodraeth gynnal asesiad llawn, tebyg i Asesiad y Mileniwm, yn y DU er mwyn gallu dynodi a datblygu ymatebion polisi effeithiol i ddiraddio gwasanaeth ecosystem.

Dechreuodd Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU yng nghanol 2009 a chyflwynwyd yr adroddiad ym mis Mehefin 2011. Roedd yn broses gynhwysol a oedd yn cynnwys y llywodraeth, sefydliadau academiaidd, cyrff anllywodraethol a'r sector preifat. Mae Pennod 20 o [Adroddiad Technegol Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU](#) (Statws Ecosystemau a'r Newidiadau iddynt a'u Gwasanaethau i'r Gymdeithas - Cymru) (2011) yn rhestru rhai o'r nodweddion yng Nghymru sy'n darparu'r cyd-destun ar gyfer ystyried gwasanaethau ecosystem a bioamrywiaeth. Dyma brif ganfyddiadau'r astudiaeth:

- Mae bioamrywiaeth yn cyfrannu at ffyniant economaidd a chymdeithasol yng Nghymru drwy fod yn sail i wasanaethau ecosystem gwerthfawr.
- Mae Mynyddoedd, Gweundiroedd a Rhostiroedd Cymru yn storio symiau sylweddol o garbon, ond mae cyflwr llawer o'r safleoedd gwarchoddedig yn y math eang hwn o gynefin yn dirywio.
- Y newid yng nghyfansoddiad Glaswelltir Lled-naturiol yr iseldir oedd un o'r newidiadau cyflymaf ac ehangaf i lystyfiant a welwyd yng Nghymru yn ystod yr 20fed Ganrif.
- Ffermdir Caeedig yw tua 37.4% o Gymru, sy'n cynnwys 34% o Laswelltir wedi'i Wella a 3.4% o Dir Ár a Thir Garddwriaethol.
- Mae arwynebedd coetiroedd yng Nghymru wedi treblu bron ers dechrau'r 1900au a bellach mae coetiroedd yn gorchuddio tua 14% o gyfanswm arwynebedd tir y wlad.
- Mae ecosystemau dŵr croyw Cymru yn dal i ddiodeff yn sgil gwaddol diwydiant, er enghraifft, llygredd metel o weithfeydd mwynau, ond mae tystiolaeth bod pethau'n gwella yn sgil camau i wneud iawn am hyn.
- Mae 5% o Gymru yn cael ei gategoreiddio'n gynefin trefol. Yn ystod y 40 mlynedd diwethaf, mae gweithgareddau wedi'u cynnal i wella ansawdd llesiant pobl yn yr amgylchedd trefol drwy ehangu llecynnau gwyrdd a phlannu coed a chynyddu nifer y gwarchodfeydd natur lleol sy'n agos at ganolfannau trefol.

- Twyni Tywod, Corsydd Heli a Chlogwyni'r Môr yw rhai o'r cynefinoedd arfordirol helaethaf yng Nghymru ac maent yn bwysig ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau rheoleiddio, gan gynnwys diogelu rhag erydu'r glannau.
- Ar hyn o bryd, ystyrir Cymru yn ddalfa net ar gyfer carbon deuocsid yn y sector defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth.
- Yng Nghymru y mae rhai o'r lefelau glawiad uchaf yn y DU. Mae cyflenwadau mawr o ddŵr wyneb yng Nghymru sydd wedi bod yn ffynonellau cyflenwi ers tro i'r DU ehangach.
- Cyfrannodd gwasanaethau amaethyddol ryw £418 miliwn neu 1.1% at economi Cymru yn 2003.
- Mae Cymru yn enwog am ei thirweddau deniadol, gyda thri Pharc Cenedlaethol a phum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn gorchuddio dros 24% o arwynebedd y wlad.
- Mewn astudiaeth yn 2001, amcangyfrifwyd bod yr amgylchedd yn cyfrannu gwerth £8.8 biliwn o nwyddau a gwasanaethau bob blwyddyn at economi Cymru, 9% o gynnyrch domestig gros Cymru ac un o bob chwe swydd yng Nghymru, gan mwyaf yn y sectorau hamdden a thwristiaeth, amaethyddiaeth a choedwigaeth, tynnu dŵr, cadwraeth a rheoli gwastraff. Canfuwyd hefyd bod yr amgylchedd yn bwysicach o safbwynt cymharol i economi Cymru nag ydyw i wledydd eraill y DU.

Roedd y bennod hefyd yn nodi rhai o'r tueddiadau gan gyfeirio at ddirywiad cyffredinol yn nifer ac amrywiaeth y cynefinoedd a'r rhywogaethau yng Nghymru, a bod y tueddiadau hyn yn parhau. Drwyddi draw, roedd y bennod yn sôn am newidiadau sylweddol i fioamrywiaeth yng Nghymru dros y 70 mlynedd diwethaf, gyda rhai rhywogaethau'n ffynnu neu'n adfer ar ôl colledion blaenorol, ac eraill wedi lleihau o ran eu nifer.

Cynefinoedd

- Yn 2005, roedd cyflwr 59% o gynefinoedd y Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth yng Nghymru yn dirywio. Fodd bynnag, mae'r dirywiad hwn yn arafu mewn llawer o safleoedd ac felly gellir gosod 65% o gynefinoedd y Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth yng Nghymru yn y categorïau hyn: yn gwella, yn sefydlog neu'n dangos arwyddion bod y dirywiad yn amrywio neu'n arafu.
- Dim ond 8% o gynefinoedd daearol a oedd yn dangos dirywiad parhaus neu ddirywiad a oedd yn cyflymu o'i gymharu â 33% o'r cynefinoedd dŵr croyw.
- Gwelwyd cynnydd yng nghanran y cynefinoedd â blaenoriaeth yn y categori sefydlog neu'r rhai sy'n gwella o 30% yn 2002 i 36% yn 2008.
- Wrth gynnal adolygiad brys yn 2006, barnwyd bod nodweddion cadwraeth mewn 47% o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru mewn cyflwr ffafriol a 53% mewn cyflwr anffafriol.
- Mae 5% o'r Coetiroedd yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Fodd bynnag, dim ond 9% o'r rhain sy'n cael eu hystyried yn rhai sydd mewn cyflwr ffafriol ac mae 25% yn cael eu rhoi yn y categori cyflwr anffafriol ond yn adfer.
- Mae saith o bob wyth hectar o safleoedd dynodedig Natura 2000 yng Nghymru (0.5 miliwn ha) yn ardaloedd Morol, sy'n dangos pa mor bwysig yw'r rhain ar gyfer cadwraeth.

Rhywogaethau

- Oherwydd bod nifer fawr o rywogaethau yng Nghymru nad oes gennym wybodaeth am eu tueddiadau, mae'n anodd cymharu'r cynnydd yng Nghymru â'r cynnydd ar lefel y DU.
- Aseswyd bod 54% y cant o rywogaethau'r Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth yn rhai a oedd mewn 'cyflwr anffafriol' yn 2008, ond gwelwyd amrywiadau sylweddol rhwng grwpiau o rywogaethau. Tair rhywogaeth sy'n dangos dirywiad parhaus/dirywiad sy'n cyflymu yw'r gornchwigen, y gylfinir a'r cwtiad aur.
- Roedd 80% o famaliaid ac adar y môr mewn cyflwr ffafriol neu'n adfer, ond roedd cyflwr 80% o amffibiaid, ieir bach yr haf a physgod dŵr croyw, yn ôl y cofnod, yn anffafriol.
- Mae saith grŵp tacsonomig (mwy na 50% o rywogaethau Adran 42) yn dangos dirywiad sy'n cynyddu, yn sefydlog neu'n amrywio/arafu (cennau, mwsoglau a llysiâu'r afu, rhawniau, planhigion fasgwlar, creaduriaid di-asgwrn-cefn, pysgod dŵr croyw, amffibiaid ac ymlusgiaid).
- Y tueddiadau negyddol mwyaf nodedig a welir yw ymhlith yr adar (34%) a'r creaduriaid di-asgwrn-cefn (19%).
- Ar sail data tymor hwy o'r Breeding Bird Atlas, gwelwyd gostyngiad yn ystod 43% o rywogaethau adar rhwng 1968 a 1972 a rhwng 1988 a 1991, a dim ond 17% sydd wedi cynyddu.
- Mae'r prif rywogaethau adar y môr wedi cynyddu yn ystod y 30 mlynedd diwethaf; a nifer y planhigion gwylt, ieir bach yr haf o gynefinoedd arbenigol ac adar tir fferm wedi dirywio.

Ffynhonnell: Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU, (2011) Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU Adroddiad Technegol. UNEP-WCMC, Caergrawnt. <http://uknea.unep-wcmc.org/>

Yr Adroddiad am Gyflwr Natur

Cynhyrchwyd yr Adroddiad am Gyflwr Natur yn 2013 gan bartneriaeth o 25 o gyrrff bywyd gwylt y DU, er mwyn cyfleu negeseuon clir a chyson am sut mae ein bywyd gwylt yn ymdopi. Mae'r adroddiad yn cynnig asesiad awdurdodol gan y bartneriaeth, lle'r oedd modd eu hasesu, o'r tueddiadau o ran statws a phoblogaeth anifeiliaid a phlanhigion yn y Deyrnas Unedig ac yn ei Thiriogaethau Tramor. Mae'n edrych ar sut mae'r patrymau'n newid rhwng cynefinoedd a grwpiau tacsonomig ac mae'n gosod patrymau'r newidiadau hynny yn y rhywogaethau yng nghyd-destun amgylchedd sy'n newid, gan edrych ar y prif bwysau a wynebir a'r gwaith cadwraeth sy'n cael ei wneud. Mae'r manylion llawn a'r prif adroddiad i'w gweld yn <http://www.rspb.org.uk/ourwork/projects/details/363867-the-state-of-nature-report>. Cyhoeddwyd y prif ystadegau a ganlyn yn yr Adroddiad am Gyflwr Natur Cymru yn 2013:

- O'r 25 o rywogaethau ieir bach yr haf a aseswyd, o ran eu helaethrwydd yng Nghymru, tua'r un nifer sydd wedi cynyddu ag sydd wedi lleihau, sef 13.
- Mae 57% o blanhigion Cymru sy'n blodeuo yn dirywio, ac mae 43% yn cynyddu - stori debyg i'r hyn a welir yng ngweddill y DU. Mae patrwm cyffredinol y newid yn

debyg i'r hyn a welir yn Lloegr, lle mae rhywogaethau ardaloedd agored, tlawd o ran maethynnau, basig neu asidaidd yn dirywio a'r rhai sydd mewn ardaloedd niwtral, cysgodol sy'n gyfuriog o faethynnau yn cynyddu.

- Dim ond llai na hanner y rhywogaethau adar yng Nghymru y mae'n bosibl eu hasesu o ran tueddiadau poblogaeth. O blith y rhywogaethau adar a aseswyd, mae ychydig mwy wedi cynyddu nag sydd wedi lleihau. Mae adar dŵr sy'n gaeafu'n gwneud yn arbennig o dda; fodd bynnag, mae llawer o rywogaethau ffermdir yn dal i ddirywio'n gyflym.
- Rhwng 1970 a 1990, mae dwywaith cynifer o rywogaethau adar wedi lleihau o ran eu hystod yng Nghymru ag sydd wedi cynyddu.

Fodd bynnag, roedd prinder cyffredinol o ddata o ansawdd y gellid eu defnyddio i fesur statws a thueddiadau rhywogaethau yng Nghymru.

Ffynhonnell: Burns F, Eaton MA, Gregory RD, et al. (2013) State of Nature report. Y Bartneriaeth Cyflwr Natur.

Mae'r crynodeb ar gyfer Cymru i'w weld yn <http://www.wildlifetrusts.org/publications>

Atodiad 2: Nodau a thargedau Byd-Eang ac Ewropeaidd ar gyfer bioamrywiaeth

Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol 1992 sy'n gosod y cyd-destun polisi byd-eang. Amcan cyffredinol y confensiwn yw hyn: *'the conservation of biological diversity, the sustainable use of its components and the fair and equitable sharing of the benefits arising out of the utilisation of genetic resources.'*

Mae'r Confensiwn yn ymrwymo'r sawl sydd wedi llofnodi'r cytundeb i ddatblygu strategaethau, cynlluniau neu raglenni cenedlaethol er mwyn cadw amrywiaeth fiolegol a'i defnyddio'n gynaliadwy gan integreiddio, cymaint ag y bo modd ac fel sy'n briodol, gadwraeth amrywiaeth fiolegol a'i defnyddio'n gynaliadwy â chynlluniau, rhaglenni a pholisïau perthnasol y sectorau neu ar draws sectorau.

Mae'r Confensiwn yn nodi 12 egwyddor weithredol sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio dull ecosystemau i reoli bioamrywiaeth ac mae'r rhain i'w gweld [yma](#).

Gweledigaeth Cynllun Strategol y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol 2011-2020 yw:

'By 2050, biodiversity is valued, conserved, restored and wisely used, maintaining ecosystem services, sustaining a healthy planet and delivering benefits essential for all people.'

Cenhadaeth y cynllun yw: *"take effective and urgent action to halt the loss of biodiversity in order to ensure that by 2020 ecosystems are resilient and continue to provide essential services, thereby securing the planet's variety of life, and contributing to human well-being, and poverty eradication. To ensure this, pressures on biodiversity are reduced, ecosystems are restored, biological resources are sustainably used and benefits arising out of utilization of genetic resources are shared in a fair and equitable manner; adequate financial resources are provided, capacities are enhanced, biodiversity issues and values mainstreamed, appropriate policies are effectively implemented, and decision-making is based on sound science and the precautionary approach."*

Mae'r Cynllun Strategol yn cynnwys pum nod strategol:

Nod Strategol A: Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol colli bioamrywiaeth drwy brif ffrydio bioamrywiaeth ar draws y llywodraeth a chymdeithas.

Nod Strategol B: Lleihau'r pwysau uniongyrchol ar fioamrywiaeth a hybu defnydd cynaliadwy.

Nod Strategol C: Gwella statws bioamrywiaeth drwy ddiogelu ecosystemau, rhywogaethau ac amrywiaeth genedig.

Nod Strategol D: Gwella'r manteision i bawb yn sgil bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystem.

Nod Strategol E: Cryfhau gweithredu drwy gynllunio cyfranogol, rheoli gwybodaeth a meithrin gallu.

Mae i bob nod nifer o dargedau, a elwir yn Dargedau Bioamrywiaeth Aichi. Mae'r rhain i'w gweld [yma](#). Maent i'w gweld hefyd yn Atodiad 3 isod.

Strategaeth Bioamrywiaeth yr Undeb Ewropeaidd

Mae Strategaeth Bioamrywiaeth yr Undeb Ewropeaidd (2011): *'Our life insurance, our natural capital: an EU Biodiversity Strategy to 2020'* yn cynnwys gweledigaeth sef: *'By 2050, European Union biodiversity and the ecosystem services it provides — its natural capital — are protected, valued and appropriately restored for biodiversity's intrinsic value and for their essential contribution to human wellbeing and economic prosperity, and so that catastrophic changes caused by the loss of biodiversity are avoided.'*

Er mwyn helpu i wireddu'r weledigaeth hon, mae'r Strategaeth yn cynnwys y prif darged hwn:

'Halting the loss of biodiversity and the degradation of ecosystem services in the EU by 2020, and restoring them in so far as feasible, while stepping up the EU contribution to averting global biodiversity loss.'

Mae Strategaeth yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Bioamrywiaeth yn dweud sut y gall polisiau Ewrop gyfrannu orau at gyflawni Cynllun Strategol y Confensiwn ac mae'n cynnwys nifer o amcanion i aelod-wladwriaethau. Mae amcanion a thargedau'r Strategaeth a sut mae'r rhain yn mynd i'r afael â thargedau AICHI i'w gweld [yma](#).

Fframwaith Bioamrywiaeth y DU

Gan fod bioamrywiaeth yn bwnc sydd wedi'i ddatganoli, bydd pob un o bedair gwlad y DU yn gweithio i fynd i'r afael â nodau a thargedau'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a rhai'r Undeb Ewropeaidd yn eu tiriogaeth eu hunain.

Mae'r gwaith o dan Gynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth bellach wedi'i ganolbwyntio ar lefel y gwledydd (Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban). Mae llawer o'r arfau a ddatblygwyd o dan Gynllun y DU yn dal i gael eu defnyddio; er enghraifft, gwybodaeth gefndir am y rhestrau o gynefinoedd a rhywogaethau sy'n flaenoriaeth.

Serch hynny, mae'r rhestrau hyn bellach yn cael eu cadw a'u diweddarau ar wahân ym mhob gwlad. Yng Nghymru, y rhestrau cyfredol yw'r rheini o dan Adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Bydd y rhain yn cael eu disodli gan restrau o dan Adran 7 o Fil yr Amgylchedd (Cymru).

Mae Fframwaith Bioamrywiaeth y DU yn dangos sut mae gwaith pedair gwlad y DU yn cydgysylltu â gwaith ar lefel y DU i gyflawni Targedau Bioamrywiaeth Aichi a

nodau Strategaeth Bioamrywiaeth yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n nodi'r gweithgareddau sy'n ofynnol er mwyn ategu strategaethau bioamrywiaeth y gwledydd, a'r manau hynny lle mae gwaith yn strategaethau'r gwledydd yn cyfrannu at gyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol. Drwyddi draw, mae 23 o feysydd gwaith wedi'u dynodi lle mae'r gwledydd i gyd wedi cytuno eu bod yn dymuno cyfrannu at ffocws parhaus yn y DU ac ei wa ohono, a chyhoeddwyd [Cynllun Gweithredu](#) ym mis Tachwedd 2013. [Adroddir bob blwyddyn](#) am gynnydd y Cynllun Gweithredu, ac mae'r adroddiadau i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol hefyd yn cael eu cydgysylltu ar lefel y DU.

Atodiad 3: Sut mae'r Cynllun Adfer Natur yn mynd i'r afael â thargedau Aichi

Targedau AICHI	Amcanion a chamau gweithredu Cynllun Adfer Natur Cymru
Nod Strategol A - Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol colli bioamrywiaeth drwy brif ffrydio bioamrywiaeth ar draws y llywodraeth a chymdeithas.	Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.
Targed 1: Erbyn 2020, fan hwyraf, bydd pobl yn ymwybodol o werthoedd bioamrywiaeth a'r camau y gallant eu cymryd i'w chadw a'i defnyddio'n gynaliadwy.	<p>Camau i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Integreiddio bioamrywiaeth yn y broses benderfynu • Sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael sylw wrth wneud penderfyniadau busnes • Gwella'r ddealltwriaeth a chryfhau'r ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a gwerth bioamrywiaeth • Annog pawb i weithredu. <p><i>Bydd camau pellach i fynd i'r afael â phob Nod a tharged yn cael eu cymryd ar lefel y DU, a bydd Fframwaith Bioamrywiaeth y DU yn cydgysylltu hynny, gweler Atodiad 2.</i></p>
Targed 2: Erbyn 2020, fan hwyraf, bydd gwerthoedd bioamrywiaeth wedi'u hintegreiddio i strategaethau datblygu a lliniaru tlodi a phrosesau cynllunio lleol a chenedlaethol ac yn cael eu hymgorffori yn y drefn gyfrifo genedlaethol, fel y bo'n briodol, a systemau adrodd	
Targed 3: Erbyn 2020, fan hwyraf, bydd mentrau, gan gynnwys cymorthdaliadau, sy'n niweidiol i fioamrywiaeth yn cael eu dileu, eu diddymu fesul cam neu'n cael eu diwygio er mwyn sicrhau cyn lleied o effeithiau negyddol â phosibl neu er mwyn eu hosgoi. Bydd cymhelliant cadarnhaol i gadw bioamrywiaeth a'i defnyddio'n gynaliadwy yn cael ei ddatblygu a'i roi ar waith, a hynny'n gyson ac yn gydnaws â'r Confensiwn a rhwymedigaethau rhyngwladol perthnasol eraill, gan ystyried amgylchiadau economaidd-gymdeithasol cenedlaethol.	
Targed 4: Erbyn 2020, fan hwyraf, bydd llywodraethau, byd busnes a rhanddeiliaid ar bob lefel wedi cymryd camau i sicrhau neu wedi rhoi cynlluniau ar waith ar gyfer cynhyrchu a defnyddio cynaliadwy ac wedi cadw effeithiau defnyddio adnoddau naturiol yn gyfforddus o fewn terfynau ecolegol diogel.	

<p>Nod strategol B. Lleihau'r pwysau uniongyrchol ar fioamrywiaeth a hybu defnydd cynaliadwy.</p>	<p>Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd</p>
<p>Targed 5: Erbyn 2020, bydd cyfradd colli pob cynefin naturiol, gan gynnwys fforestydd, wedi'i haneru fan leiaf, a lle bo hynny'n ymarferol, yn cyrraedd yn agos at sero, a bydd y diraddio a'r darnio'n sylweddol lai.</p>	<p>Camau i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ddefnyddio'r gyfres o ddeddfwriaeth sydd ar waith eisoes i frwydro yn erbyn llygredd, rhywogaethau goresgynnol ac ati. • Defnyddio gwybodaeth gyfoes sy'n seiliedig ar dystiolaeth i benderfynu ynghylch y ffactorau sy'n sbarduno newid a ffactorau negyddol allweddol ar gyfer bioamrywiaeth • Defnyddio dulliau system gyfan ac atebion yn seiliedig ar natur i leihau llygredd yn ein cynefinoedd a'u hatal rhag cael eu darnio, gan greu cynefinoedd bioamrywiol brodorol. • Annog rheoli
<p>Targed 6: Erbyn 2020 bydd pob stoc pysgod a chreaduriaid di-asgwrn-cefn a phob planhigyn dyfrol yn cael eu rheoli a'u cynaeafu'n gynaliadwy, yn gyfreithlon a chan ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar ecosystemau, er mwyn osgoi gorbysgota, a bydd cynlluniau adfer a mesurau ar waith ar gyfer pob rhywogaeth sy'n cael ei disbyddu, ni fydd pysgodfeydd yn amharu'n sylweddol ar rywogaethau sydd dan fygythiad ac ecosystemau bregus a bydd effeithiau pysgodfeydd ar stociau, rhywogaethau ac ecosystemau o fewn terfynau ecolegol diogel</p>	
<p>Targed 7: Erbyn 2020, bydd ardaloedd sy'n cael eu hamaethu, eu dyframaethu a'u coedwigo'n cael eu rheoli'n gynaliadwy, gan sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei chadw.</p>	
<p>Targed 8: Erbyn 2020, bydd llygredd, gan gynnwys llygredd yn sgil gormod o faetholion, wedi cyrraedd lefelau nad ydynt yn niweidiol i weithrediad ecosystemau a bioamrywiaeth.</p>	
<p>Targed 9: Erbyn 2020, bydd rhywogaethau estron goresgynnol a'u llwybrau'n cael eu dynodi a'u blaenoriaethu, bydd rhywogaethau sy'n flaenoriaeth yn cael eu rheoli neu'u dileu, a bydd camau ar waith i reoli llwybrau er mwyn eu hatal rhag cael eu cyflwyno ac ymsefydlu.</p>	
<p>Targed 10: Erbyn 2015, bydd y pwysau anthropogenig niferus ar riffiau cwrel ac ecosystemau bregus eraill y mae newid yn yr hinsawdd neu asideiddio'r cefnforoedd yn effeithio arnynt wedi'u lliniaru, er mwyn cynnal eu dilysrwydd a'u gweithrediad.</p>	

	amaethyddiaeth, pysgodfeydd a choedwigaeth mewn ffordd gynaliadwy
--	--

<p>Nod Strategol C. Gwella statws bioamrywiaeth drwy ddiogelu ecosystemau, rhywogaethau ac amrywiaeth genetig.</p>	<p>Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well</p>
<p>Targed 11: Erbyn 2020, bydd o leiaf 17 y cant o ardaloedd daearol a dyfroedd mewndirol, a 10 y cant o ardaloedd y glannau a'r môr, yn enwedig ardaloedd o bwys arbennig ar gyfer bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystem yn cael eu cadw drwy eu rheoli'n effeithiol ac yn deg, yn ecolegol gynrychioladol ac yn cynnwys systemau o ardaloedd gwarchodedig sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd ynghyd â chamau cadwraeth effeithiol eraill ar sail ardal, gan eu hintegreiddio i'r tirweddau a'r morweddau ehangach.</p>	<p>Camau i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ddefnyddio'r gyfres o ddeddfwriaeth sydd ar waith i warchod ein rhywogaethau a'n cynefinoedd ar fôr ac ar dir. • Gwneud ein safleoedd, ein cynefinoedd a'n rhywogaethau gwarchodedig yn fwy cydnerth drwy wella nodweddion cydnerthedd sef: amrywiaeth, ehangder, cyflwr a chysylltedd. • Gwella a blaenoriaethu rheoli safleoedd i fynd i'r afael â'r prif bwysau ar gynefinoedd a rhywogaethau. • Sicrhau bod rhestrau o rywogaethau a chynefinoedd yn adlewyrchu blaenoriaethau Cymru, a nodi'r blaenoriaethau hollbwysig.
<p>Targed 12: Erbyn 2020, bydd diflaniad rhywogaethau y gwyddys eu bod dan fygythiad wedi'i atal, a'u statws cadwraeth, yn enwedig y rhai sy'n wynebu'r dirywiad mwyaf, wedi'i wella a'i gynnal.</p>	
<p>Targed 13: Erbyn 2020, bydd amrywiaeth genetig planhigion sy'n cael eu trin a'u ffermio ac anifeiliaid domestig a rhai eu perthnasau yn y gwyllt, gan gynnwys rhywogaethau gwerthfawr eraill o safbwynt economaidd-gymdeithasol yn ogystal ag o safbwynt diwylliannol wedi'i chynnal, a bydd strategaethau wedi'u datblygu a'u rhoi ar waith i sicrhau cyn lleied o erydu genetig â phosibl a diogelu eu hamrywiaeth genetig.</p>	

<p>Nod Strategol D: Gwella'r manteision i bawb yn sgil bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystem.</p>	<p>Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd</p>
<p>Targed 14: Erbyn 2020, bydd ecosystemau sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys gwasanaethau sy'n gysylltiedig â dŵr, ac sy'n cyfrannu at iechyd, bywoliaeth pobl a'u llesiant, wedi'u hadfer a'u diogelu, gan ystyried anghenion menywod, cymunedau cynhenid a lleol, a phobl dlawd ac agored i niwed.</p>	<p>Camau i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r blaenoriaethau ar gyfer adfer y tu allan i safleoedd dynodedig. (Beth ac ymhle) • Darparu cynlluniau a chanllawiau ar gyfer adfer sydd wedi'u seilio ar yr arferion gorau gan integreiddio bioamrywiaeth sydd wedi'i hadfer ag anghenion cymdeithasol ac economaidd - i reolwyr tir a chyrrff cyhoeddus (Sut) • Adfer ardaloedd o gynefinoedd sydd wedi'u diraddio drwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig, a mecanweithiau eraill.
<p>Targed 15: Erbyn 2020, bydd cydnerthedd ecosystemau a chyfraniad bioamrywiaeth at stociau carbon wedi gwella, drwy gadwraeth ac adfer, gan gynnwys adfer o leiaf 15 y cant o ecosystemau sydd wedi'u diraddio, a thrwy hynny, gyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu iddo a brwydro yn erbyn diffeithio.</p>	
<p>Targed 16: Erbyn 2015, bydd Protocol Nagoya ar Fynediad i Adnoddau Genetig a Rhannu Manteision sy'n Codi o'u Defnyddio'n Deg ac yn Gyfartal mewn grym ac ar waith, a hynny'n gyson â deddfwriaeth genedlaethol.</p>	

<p>Nod Strategol E. Cryfhau gweithredu drwy gynllunio cyfranogol, rheoli gwybodaeth a meithrin gallu.</p>	<p>Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n prosesau monitro</p> <p>Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion</p>
<p>Targed 17: Erbyn 2015, bydd pob Parti wedi datblygu a mabwysiadu offeryn polisi, ac wedi dechrau rhoi ar waith strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol a chynllun gweithredu, effeithiol, cyfranogol a chyfoes.</p>	<p>Camau i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Safoni'r drefn ar gyfer casglu a defnyddio data priodol mewn ffordd agored a hygyrch. • Diffinio set briodol o ddangosyddion i Gymru sy'n dangos ein cynnydd o'i gymharu ag amcanion y Cynllun Adfer Natur. • Canolbwyntio'r ymchwil a'r datblygu ar flaenoriaethau y cytunwyd arnynt • Parhau a, lle bo modd, gwella'r monitro a'r goruchwyllo • Rhoi mecanweithiau ariannu a chyllid arloesol ar waith ar gyfer bioamrywiaeth • Sicrhau bod amcanion a chamau gweithredu'r Polisi Adnoddau Cenedlaethol yn
<p>Targed 18: Erbyn 2020, bydd parch at wybodaeth draddodiadol, dulliau arloesol ac arferion cymunedau cynhenid a lleol sy'n berthnasol i gadwraeth a defnyddio bioamrywiaeth yn gynaliadwy, a'u dull arferol o ddefnyddio adnoddau biolegol, yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth genedlaethol a rhwymedigaethau rhyngwladol perthnasol, a bydd y rhain wedi'u hintegreiddio'n llawn i weithredu'r Confensiwn ac yn cael eu hadlewyrchu ynddo, gyda chyfranogiad llawn ac effeithiol cymunedau cynhenid a lleol, ar bob lefel berthnasol.</p>	
<p>Targed 19: Erbyn 2020, bydd yr wybodaeth, y dystiolaeth a'r technolegau sy'n berthnasol i fioamrywiaeth, ei gwerthoedd, y ffordd mae'n gweithredu, ei statws a'i thueddiadau a chanlyniadau ei cholli, yn well, yn cael eu rhannu a'u trosglwyddo eang, ac yn cael eu cymhwyso.</p>	
<p>Targed 20: Erbyn 2020, fan hwyraf, dylai rhoi adnoddau ariannol ar waith er mwyn gweithredu'n effeithiol y Cynllun Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth 2011-2020 o bob ffynhonnell, ac yn unol â'r broses gryfach y cytunwyd arni yn y Strategaeth ar gyfer Rhoi Adnoddau ar Waith, gynyddu'n sylweddol o'u lefelau presennol. Bydd y targed hwn yn dibynnu ar newidiadau yn sgil asesu'r adnoddau sydd eu hangen a ddatblygir gan y Partïon ac a adroddir yn eu cylch.</p>	

	cael eu cyflawni a bod adroddiadau ynghylch hyn.
--	--